

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Craffu ar gynnig cyllideb ddrafft Llywodraeth
Cymru ar gyfer 2012–2013

Tachwedd 2011



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8597
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Craffu ar gynnig cyllideb ddrafft Llywodraeth
Cymru ar gyfer 2012–2013

Tachwedd 2011



Y Pwyllgor Cyllid

Mae swyddogaethau'r Pwyllgor Cyllid yn cynnwys:

- ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen arall a gyflwynir gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru neu'r Comisiwn sy'n cynnwys cynigion ar gyfer defnyddio adnoddau a chyflwyno adroddiad arnynt;
- ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru neu sy'n effeithio ar y gwariant hwnnw, a chyflwyno adroddiad arnynt.

Mae cyfeiriad at y defnydd o adnoddau yn gyfeiriad at eu gwariant, eu treuliant neu leihad yn eu gwerth ac mae'n cynnwys gwariant sy'n daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru ac unrhyw wariant arall y telir amdano drwy drethi, taliadau a ffynonellau eraill o refferiw.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 yn un o bwyllgorau'r Cynulliad. Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, ac yn Rheol Sefydlog 16 yn benodol. Mae'r rhain i'w gweld yn www.cynulliadcymru.org

Aelodau'r Pwyllgor



Jocelyn Davies (Cadeirydd)
Dwyrain De Cymru
Plaid Cymru



Peter Black
Gorllewin De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol
Cymru



Christine Chapman
Cwm Cynon
Llafur Cymru



Paul Davies
Preseli Sir Benfro
Ceidwadwyr Cymreig



Mike Hedges
Dwyrain Abertawe
Llafur Cymru



Ann Jones
Dyffryn Clwyd
Llafur Cymru



Julie Morgan
Gogledd Caerdydd
Llafur Cymru



Ieuan Wyn Jones
Ynys Môn
Plaid Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion y Pwyllgor	6
Cyflwyniad	8
Pwy ydym ni?	8
Beth yw cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru?	8
Pam y gwnaethom graffu ar y gyllideb ddrafft hon?	9
Sut y gwnaethom graffu ar y gyllideb ddrafft hon?	9
Cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft	9
Ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft	10
Cyd-destun ariannol Cyllideb Ddrafft 2012-2013	11
Strwythur ein hadroddiad.....	13
1. Amcanion strategol cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013	14
Aliniad â Maniffesto Llafur Cymru	14
Awgrymiadau ar gyfer blaenoriaethau strategol.....	14
Blaenoriaethau strategol cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013	15
Yr angen i nodi canlyniadau clir yn y gyllideb ddrafft.....	17
2. Sut y cyflwynwyd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013	21
Yr angen am dryloywder	21
Cymharu'r cyllidebau	22
Tryloywder yr arian a delir i Gronfa Gyfunol Cymru	25
Craffu ar Wasanaethau Canolog a Gweinyddu Llywodraeth Cymru .	25
Prydlondeb y manylion a ddarparwyd mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft.....	26
2. Buddsoddi cyfalaf	28
Cyllid cyfyngedig ar gyfer buddsoddi cyfalaf	28
Yr angen i ddefnyddio cyllid cyfalaf cyfyngedig mewn modd amserol a strategol.....	30

Y potensial i gynyddu'r cyllid ar gyfer buddsoddi cyfalaf	32
3. Pa mor ddigonol yw swm yr arian wrth gefn sydd gan Lywodraeth Cymru.....	35
5. Asesiadau effaith.....	39
Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.....	39
Y Gymraeg.....	41
Asesiadau o'r effaith ar gynaliadwyedd	42
6. Effaith bosibl cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.....	44
Effaith bosibl cyllideb ddrafft 2012-2013 ar y GIG yng Nghymru....	44
Effaith bosibl cyllideb ddrafft 2012-2013 ar lywodraeth leol yng Nghymru	48
Arbedion effeithlonrwydd y mae'n rhaid i lywodraeth leol eu gwneud.....	48
Hynt yr arian a roddir gan lywodraeth leol i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill	51
7. Yr angen i gydweithio.....	54
Gweithio cydgysylltiedig o fewn Llywodraeth Cymru	54
Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill	55
Hwyluso cydweithio rhwng darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill	56
Casgliadau	59
Atodiad 1: Gohebiaeth a gafwyd gan Bwyllgorau eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru.....	60
Atodiad 2: Tystion	95
Atodiad 3: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig	97

Rhagair y Cadeirydd

Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb ddrafft 2012-2013 yn ystod cyfnod o bwysau aruthrol ar wariant cyhoeddus, ac ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol.

Ar ôl etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu. Wrth archwilio cyllideb ddrafft 2012-2013, rydym wedi ceisio cadarnhau sut y mae Llywodraeth newydd Cymru wedi ailflaenoriaethu ei chynlluniau gwario (i'w halinio â'r rhaglen hon, ac i ymateb i'r datblygiadau economaidd diweddar), a sut y mae'n bwriadu monitro'r gwariant i sicrhau y bydd y canlyniadau a'r gwerth a'r arian a ddymunir yn cael eu cyflawni.

Croesawn fwriad Llywodraeth Cymru i fod yn agored a thryloyw ynghylch ei chynllunio cyllidebol. Rydym hefyd yn ymwybodol bod lle o hyd i gael mwy o dryloywder yn y modd y mae'r Llywodraeth yn cyflwyno dyraniadau arfaethedig ei chyllideb, a chroesawn ymdrechion y Gweinidogion i barhau i wella'r broses hon.

O ganlyniad i'r hinsawdd economaidd bresennol, nodwn resymeg ymgais Llywodraeth Cymru i reoli risgiau ariannol, yn hytrach na'u hosgoi. Fodd bynnag, mae pryderon o hyd ynghylch swm yr arian wrth gefn a gadwyd yng nghyllideb 2012-2013, ac a fyddai'n ddigonol i ddelio ag amgylchiadau nas rhagwelwyd.

Croesawn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni ac i ddatblygu cyllideb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw adrannau Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r ymrwymiad hwn i gael canlyniadau clir, tryloyw y gellir eu mesur. Gan gydnabod mai hwn yw cyllideb ddrafft gyntaf Llywodraeth newydd Cymru, edrychwn ymlaen at gael mwy o eglurder yn y dyfodol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Gweinidogion a'u swyddogion am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, ac i bwyllgorau eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ystod proses y gyllideb. Hoffwn ddiolch hefyd i'r sefydliadau allanol amrywiol a roddodd dystiolaeth i ni ac a wnaeth ein cynorthwyo â'n trafodaethau. Heb eich gwybodaeth a'ch arbenigedd chi, ni fyddem wedi gallu craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn effeithiol ar ran pobl Cymru.

Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru isod, yn y drefn yr ymddangosant yn yr adroddiad hwn. Cyfeiriwch at y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cefnogi'r argymhellion:

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio tuag at sicrhau bod y canlyniadau a fwriedir yn sgil gwario arian cyhoeddus - a'r dulliau o fonitro hyn - yn cael eu nodi a'u cyhoeddi'n gyson mewn modd amserol sy'n galluogi gwaith craffu effeithiol ar ba mor ddigonol yw cynigion cyllideb Llywodraeth Cymru ac ar eu gwerth am arian. **(Tudalen 20)**

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, wrth gyflwyno cyllidebau drafft yn y dyfodol, yn darparu newidiadau arfaethedig i'r gyllideb flwyddyn ar ôl blwyddyn (gan ddefnyddio ffigurau o gyllideb ddiweddaraf y flwyddyn ariannol flaenorol fel llinell sylfaen). **(Tudalen 27)**

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, wrth gyflwyno cyllidebau drafft yn y dyfodol, yn ymdrechu i ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol y gwneir cais amdani ar ddyraniadau cyllidebol arfaethedig (gan gynnwys manylion y dyraniadau o fewn adrannau, fel llinellau gwariant yn y gyllideb) i Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ddarparu digon o fanylion i graffu arnynt ar ffurf gyson a chydgysylltiedig pan gyhoeddir y gyllideb ddrafft, neu mor agos at yr amser hwnnw ag sy'n rhesymol bosibl. **(Tudalen 27)**

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod y Gweinidog Cyllid yn ymateb i bryderon Pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn gwrandao ar sylwadau'r rhanddeiliaid, er mwyn gwella prydlondeb a lefel y manylion a gyhoeddir yng nghynigion y gyllideb ddrafft er mwyn gallu craffu arnynt yn fwy effeithiol mewn perthynas â meysydd penodol. **(Tudalen 27)**

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n gyflym ar ddatblygu dull strategol ar gyfer defnyddio ei gyllid cyfalaf, gan gyflwyno adroddiadau pob chwarter i'r Pwyllgor Cyllid ar ei chynnydd. Rydym yn argymell y dylai hyn egluro pa elfennau o wariant cyfalaf arfaethedig Llywodraeth Cymru a gaiff eu cynnwys yn y Cynllun Seilwaith Cenedlaethol er mwyn gwneud gwaith craffu arno. **(Tudalen 33)**

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio pob ffordd o gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyllido cyfalaf ac i wneud y mwyaf ohonynt, ac o sicrhau'r manteision mwyaf i Gymru. Rhagwelwn y byddai hyn yn cynnwys dadansoddiad cadarn o ganlyniadau

tymor byr a hirdymor dulliau o'r fath ar gyfer cynyddu cyllido cyfalaf i Gymru. Rhagwelwn y byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno adroddiad i ni bob chwarter ar y materion y cyfeirir atynt yn yr argymhellion hyn. **(Tudalen 34)**

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell y dylid cynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r holl ddyraniadau arfaethedig o fewn cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru. Rydym yn rhagweld y cynhelir asesiad o effaith y gyllideb ar ddatblygiad y Gymraeg i gyd-fynd â hyn. **(Tudalen 51)**

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell y dylid cynnal asesiad llawn o'r effaith ar gynaliadwyedd mewn perthynas â'r holl ddyraniadau arfaethedig o fewn cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru. **(Tudalen 52)**

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaeth â'r Byrddau Iechyd Lleol er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau gwasanaeth yn cael eu cwblhau a'u cyhoeddi cyn gynted â phosibl, a bod y Gweinidog yna'n cyflwyno adroddiad ynghylch a fydd yr arian sydd ar gael i Fyrddau Iechyd Lleol yn ddigonol i roi cynlluniau o'r fath ar waith. **(Tudalen 53)**

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro rôl ei huned gyflenwi o ran sicrhau'r canlyniadau y bwriedir i'r gyllideb ddrafft eu cyflawni. Rhagwelwn y byddai hyn yn cynnwys egluro rôl yr uned gyflenwi o ran monitro sut y caiff y canlyniadau eu cyflawni, a galluogi'r camau priodol i gael eu cymryd pan fo perygl na fydd y canlyniadau'n cael eu cyflawni. **(Tudalen 70)**

Cyflwyniad

Pwy ydym ni?

1. Un o bwyllgorau trawsbleidiol y Cynulliad Cenedlaethol yw'r Pwyllgor Cyllid, a daw'r Aelodau o'r pedair plaid wleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad.
2. Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gyflwyno adroddiadau ar gynigion sy'n ymwneud â'r defnydd o adnoddau a osodir gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru. Hefyd, gall y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru neu sy'n effeithio arno.

Beth yw cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru?

3. Mae Rheol Sefydlog 20.7 yn nodi:

“Rhaid i un o Weinidogion Cymru osod gerbron y Cynulliad gyllideb ddrafft sy'n nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall sy'n briodol ym marn y Gweinidog.”¹

4. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar y gyllideb ddrafft hon. Mae Rheol Sefydlog 20.11 yn pennu ffiniau'r adroddiad hwn, gan nodi:

“Caiff adroddiad y pwyllgor cyfrifol argymhell newidiadau yn y symiau a gynigiwyd yn y gyllideb ddrafft ar yr amod na fyddai effaith net y newidiadau hynny'n cynyddu neu'n gostwng cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yng nghyllideb ddrafft y llywodraeth.”²

5. Felly, ni allwn awgrymu newidiadau i gyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigwyd yn y gyllideb ddrafft.

6. Er mai'r Pwyllgor Cyllid sy'n gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar y gyllideb ddrafft, mae Rheol Sefydlog 20.10 hefyd yn nodi:

“Caiff unrhyw bwyllgor, ac eithrio'r pwyllgor cyfrifol, ystyried cyllideb ddrafft y llywodraeth a chyflwyno adroddiad arni i'r pwyllgor cyfrifol.”³

¹ Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2011, Rheol Sefydlog 20.7

² Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2011, Rheol Sefydlog 20.11

³ Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2011, Rheol Sefydlog 20.10

7. Felly, rydym wedi ceisio cynnwys prif ganfyddiadau'r pwyllgorau eraill sydd wedi ystyried cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad hwn.

Pam y gwnaethom graffu ar y gyllideb ddrafft hon?

8. Yn naturiol, bydd goblygiadau sylweddol i bobl Cymru o ganlyniad i unrhyw gyllideb y bydd Llywodraeth Cymru yn ei llunio. Ein gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft yw cyfnod cyntaf proses y gyllideb, fel y darperir yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol.

9. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, bydd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y gyllideb ddrafft. Bydd yr adroddiad hwn yn llywio'r ddadl honno.

10. Yn dilyn hynny, cyflwynir cynnig cyllideb terfynol (y cynnig cyllideb blynyddol), fel sy'n ofynnol o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid gwneud o leiaf un cynnig cyllideb (y cynnig cyllideb blynyddol) mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Mae Rheol Sefydlog 20.9 yn nodi na ellir cyflwyno unrhyw welliannau i'r cynnig cyllideb blynyddol.

Sut y gwnaethom graffu ar y gyllideb ddrafft hon?

Cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft

11. Mae Rheol Sefydlog 20.5 yn nodi:

“rhaid rhoi o leiaf pum wythnos i'r pwyllgor cyfrifol [y Pwyllgor Cyllid] gyflwyno adroddiad ar gyllideb ddrafft y llywodraeth.”⁴

12. Yn gynharach eleni, fe'n cynghorwyd y byddai cyllideb ddrafft 2012-2013 yn cael ei gosod ar 4 Hydref 2011, ac y byddem yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad arni erbyn 8 Tachwedd 2011. Roeddem yn cydnabod y byddai hyn yn golygu bod amser cyfyngedig i randdeiliaid wneud sylwadau ar gynigion y gyllideb ddrafft.

13. O ganlyniad, cyn y gosodwyd y gyllideb ddrafft, lansiwyd cais am wybodaeth ar 29 Gorffennaf 2011. Roedd y cais yn gwahodd ymgylgoreion, sefydliadau ac unigolion i roi gwybod i ni beth oedd eu disgwyliadau o ran cyllideb 2012-2013, ac a oedd ganddynt bryderon penodol ynghylch yr arian a ddyrannwyd mewn meysydd penodol.

14. Yn y cais hwn am wybodaeth, roeddem yn cydnabod nad oeddem yn gwybod beth fyddai cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllideb ddrafft 2012-2013. Fodd bynnag, roeddem yn gwybod y byddent yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod o bwysau ariannol sylweddol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac roeddem yn gallu tynnu sylw ein ymgylgoreion

⁴ Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2011, Rheol Sefydlog 20.5

at y ffigurau dangosol yng nghyllideb atodol 2011-2012 presennol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn yr haf. Roeddem yn rhagweld y byddai cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013 yn cynnwys newidiadau i'r ffigurau dangosol yng nghyllideb atodol 2011-12 a gyhoeddwyd yn yr haf, ond roeddem yn credu y byddai'r wybodaeth y byddai'r ymgynghoreion yn ei darparu yn ein cynorthwyo i asesu effeithiolrwydd y newidiadau hyn. Gwnaeth nifer sylweddol o'r ymgynghoreion groesawu'r cyfle hwn i roi eu sylwadau ar gynigion dangosol y gyllideb ddrafft yn gynnar yn y broses.⁵

15. Cawsom dystiolaeth lafar hefyd gan gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ar 28 Medi 2011, a amlinellodd ei phryderon ynghylch cyllideb ddrafft 2012-13, a'i disgwyliadau ohoni.

Ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft

16. Cyflwynodd Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013⁶ i'r Cyfarfod Llawn ar 4 Hydref 2011. Cyflwynwyd datganiad,⁷ dogfen naratif⁸ a thablau dyrannu gwariant manwl⁹ ar yr un pryd.

17. Bu i ni holi'r Gweinidog Cyllid ynghylch ei chyllideb ddrafft ar 12 Hydref 2011.

18. Cawsom dystiolaeth lafar hefyd ar y gyllideb ddrafft gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru, a bu i ni holi'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.

19. Cyflwynodd bump o bwyllgorau eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiadau i ni ar y materion a gododd o'u gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft, a oedd yn canolbwyntio ar gynigion y gyllideb a oedd o fewn eu cylchoedd gwaith.

20. Rhoddwyd gwahoddiad i'r Gweinidog Cyllid ymateb i'r pryderon a godwyd gan ein ymgynghoreion, ein tystion a'r pwyllgorau eraill, yn ystod ein cyfarfod ar 31 Hydref 2011.

21. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a ddarparodd dystiolaeth neu a gynorthwyodd â'n trafodion. Mae manylion llawn yr holl sefydliadau a gyflwynodd dystiolaeth i ni ar gael yma:

<http://senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1530>

⁵ Gan gynnwys: Sgiliau Adeiladu Cymru, Llywodraethwyr Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru, TPAS Cymru, Cymorth i Fenywod Cymru, NIACE Cymru, Achub y Plant, Llamau a Cymorth Cymru.

⁶ Llywodraeth Cymru, [Cynigion ynghylch y gyllideb ddrafft 2012-13](#), Hydref 2011

⁷ Llywodraeth Cymru, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, Jane Hutt, [Cyllideb Ddrafft 2012-13](#), Datganiad Cabinet (Llafar), 4 Hydref 2011

⁸ Llywodraeth Cymru, [Dogfen Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13](#), Hydref 2011

⁹ Llywodraeth Cymru, [Dyraniadau Gwariant Cyllideb Ddrafft 2012-13](#), Hydref 2011

Cyd-destun ariannol Cyllideb Ddrafft 2012-2013

22. Yn Arolwg Cynhwysfawr o Wariant 2010 (ACW 2010)¹⁰, cyhoeddwyd cyfnod o ymatal digynsail o ran cyllid cyhoeddus er mwyn lleihau'r diffyg yng nghyllideb y DU.

23. Cyhoeddwyd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-12 ac adroddiad y Pwyllgor Cyllid blaenorol arno yn dilyn yr arolwg o wariant hwn. Ers hynny, mae Llywodraeth y DU wedi parhau i weithredu ei chynlluniau cyllidol, y bwriedir iddynt gael gwared ar y diffyg arian strwythurol presennol (hy, na ellir cael gwared arno drwy dwf) erbyn 2014-15.

24. Cyflwynwyd cylch cyllideb 2011-12 yng nghyd-destun yr arolwg o wariant a'r gostyngiadau ym mloc Cymru. Bryd hynny, roedd arwyddion bod y dirywiad economaidd yn dechrau gwella. Roedd y twf mewn CMC yn gryfach nag a ddisgwylwyd ac roedd y Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau wedi diwygio ei rhagolygon er gwell.¹¹ Yn y tymor canolig, disgwylwyd y byddai chwyddiant yn aros o gwmpas y lefel darged o 2 y cant (Mynegai Prisiau Defnyddwyr), yn rhannol oherwydd y cynnydd mewn TAW. Yn gyffredinol, roedd disgwyl y byddai'r economi yn codi o'r dirwasgiad, ond yn eithaf araf.

25. Fodd bynnag, yn ystod 2011, cafodd y twf economaidd ei rwystro i raddau gan ddigwyddiadau byd-eang, gan gynnwys newidiadau mawr ym mhris olew, y daeargryn yn Siapan, yr argyfwng dyled sofran yn ardal yr Ewro, a'r argyfwng economaidd yn Unol Daleithiau America.

26. Mae'r ffactorau hyn, yn ogystal â'r mesurau caledi sydd ar waith yn nifer o wledydd Ewrop, wedi arwain at ddiwygio'r rhagolygon. O ganlyniad, cyflwynwyd cyllideb ddrafft 2012-13 mewn hinsawdd o ansicrwydd economaidd cynyddol, lle mae tybiaeth y bydd yr economi'n gwaethygu ac ofnau y bydd dirwasgiad pellach.

27. Roedd y rhagolygon yn awgrymu y byddai'r effaith ar y terfynau gwariant adrannol¹² ym mloc Cymru pan gynhaliwyd Arolwg Cynhwysfawr o Wariant 2010 yn ostyngiad cronus o £1.9 biliwn mewn termau gwirioneddol dros gyfnod yr arolwg o wariant (rhwng 2010-11 a 2014-15). Mae newidiadau dilynol, o ganlyniad i Gyllideb 2011 y DU¹³ a'r rhagolygon

¹⁰ Trysorlys EM, [Arolwg o Wariant 2010](#), Hydref 2010 (Saesneg yn unig)

¹¹ Y Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau, [Economic and Fiscal Outlook](#), Mawrth 2011. Disgwylir i'r cyhoeddiad hwn gael ei ddiweddarau ym mis Tachwedd 2011.

¹² **Terfyn gwariant adrannol (DEL)** - hwn yw terfyn cyllideb aml-flwyddyn Llywodraeth Cymru ac fe'i pennir fel arfer am gyfnod o dair i bedair blynedd fel rhan o broses Arolwg o Wariant Llywodraeth y DU. Mae'r rhan fwyaf o'r terfyn gwariant adrannol heb ei neilltuo (y gyllideb a neilltuwyd, neu'r grant bloc) ac mae'n rhoi disgrisiwn llwyr i Lywodraeth Cymru o ran ei blaenoriaethau gwario. Mae newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer gwariant o'r fath yn cael eu pennu gan ddefnyddio fformiwla Barnett.

¹³ Trysorlys EM, [Cyllideb 2011](#), Mawrth 2011 (Saesneg yn unig)

chwyddiant diwygiedig, yn golygu y rhagwelir ar hyn o bryd y bydd gostyngiad cronnos o £2.1 biliwn ym mloc Cymru dros y cyfnod hwn. Mae Atodlen 6 i Gynigion y Gyllideb Ddrafft yn dangos bod Trysorlys Ei Mawrhydi wedi darparu £15.4 biliwn ar gyfer cyfanswm bloc Cymru¹⁴ ym mlwyddyn ariannol 2012-13.¹⁵

28. Ym mis Ionawr 2011, pan gyflwynwyd Cyllideb Derfynol 2011-12, roedd y rhagolygon ar gyfer economi'r DU yn dangos rhagolwg cyfartalog o 3.0 y cant ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a 3.9 y cant ar gyfer y Mynegai Prisiau Manwerthu yn 2011.¹⁶ Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r cyhoeddiad hwn¹⁷ yn dangos bod y rhagolygon ar gyfer 2011 wedi newid yn sylweddol, gyda'r rhagolygon cyfartalog ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) yn 4.6 y cant a 5.2 y cant, yn y drefn honno. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2012 yn parhau i fod yn obeithiol, gyda'r rhagolygon cyfartalog yn nodi y disgwylir i'r CPI a'r RPI fod yn 2.2 y cant a 2.7 y cant, yn y drefn honno.

29. Dywedodd nifer o randdeiliaid wrthym eu bod yn ymwybodol o realiti economaidd cyfyngedig yr hinsawdd bresennol. Er enghraifft, nododd CLILC:

“We know that the finances available for the public sector are tighter than they have been in previous spending years. To a certain extent, I am not sure that the situation is hugely different from where we were last year when I gave evidence to the committee.”¹⁸

30. Yn yr un modd, awgrymodd CGGC:

“there are not any major shocks or surprises in the budget, from what we can tell... Much of this was forecast in last year's budget and the sector had to get its head around it then and take it on board.”¹⁹

31. Yn ystod cyfnod lle mae cyfyngiadau cynyddol ar yr arian sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, awgrymwyd inni fod mwy o bwysau ar y gwasanaethau hynny hefyd. Er enghraifft, dywedodd CGGC:

“We are beginning to see increases in demand. I do not think that we have seen the worst of what is to come. Probably next year and the year after, we will see it really increasing. As organisations that work with the most vulnerable know, part of that is because people have some resilience. They are able to turn to family and friends, or move

¹⁴ Gan gynnwys terfynau gwariant adrannol a gwariant a reolir yn flynyddol.

¹⁵ Llywodraeth Cymru, [Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2012-13](#), Hydref 2011 (Atodlen 6, tudalen 24) [

¹⁶ Trysorlys EM, [Forecasts for the UK Economy: A comparison of independent forecasts](#), Ionawr 2011

¹⁷ Trysorlys EM, [Forecasts for the UK Economy: A comparison of independent forecasts](#), Hydref 2011

¹⁸ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2011, Para 83

¹⁹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 120

to an interest-only mortgage. There will be some built-in resilience, and it takes a while before this is reflected in the figures. Some people will get a job or move on, which is great, but we know from research that was done in previous times of economic difficulty that we will see more mental health problems, more drug and alcohol problems, more domestic abuse and more young people falling out with their parents and leaving home in an unplanned way. For some people, these things will result in homelessness. We know that this is coming, and we are beginning to see the start of it.”²⁰

Strwythur ein hadroddiad

32. Credwn fod y cyd-destun ariannol hwn yn cynyddu'r angen i gyllideb Llywodraeth Cymru ddod â'r budd mwyaf i Gymru a'i phobl. Gan ddefnyddio hyn fel ein hegwyddor arweiniol, amlinellir ein hystyriaeth o gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013 yn y penodau a ganlyn:

- amcanion strategol cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013
- sut y cyflwynwyd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013
- buddsoddi cyfalaf
- pa mor ddigonol yw swm yr arian wrth gefn sydd gan Lywodraeth Cymru
- asesiadau effaith
- effaith bosibl cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru
- yr angen i gydweithio

33. Yn y penodau hyn, rydym wedi ceisio ystyried cyllideb Llywodraeth Cymru o safbwynt strategol yn bennaf. Yn hytrach na dyblygu gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad drwy ystyried y cynigion ar gyfer portffolios penodol Gweinidogion yn fanwl, rydym wedi cynnwys yn yr adroddiad hwn fanylion am y themau cyffredinol sy'n codi o'r gwaith craffu a wnaed ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae adroddiadau pwyllgorau craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cyfeirio at y cynigion mwy penodol yn y gyllideb o fewn portffolios Gweinidogion unigol, i'w cael yn Atodiad 1.

²⁰ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 207

3. Amcanion strategol cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013

Aliniad â Maniffesto Llafur Cymru

34. Pan lanswyd ein hymgyngoriad cychwynnol ar y gyllideb ddrafft, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei rhaglen lywodraethu.

35. Cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, nododd nifer o randdeiliaid y ffaith bod cynigion dangosol y gyllideb ar gyfer 2012-13 yn adlewyrchu blaenoriaethau maniffesto Llafur Cymru. Er enghraifft, nododd Hosbisau Cymru yr hyn a ganlyn:

“indicative budget proposals for 2012–13 reflect the priorities of the Welsh Government set out in the Welsh Labour manifesto and the legislative programme announced on 12 July.”²¹

36. Yn yr un modd, nododd Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS) Cymru:

“it is clear that the indicative budget proposals for 2012/13 reflect the priorities of the Welsh Government, set out in the Welsh Labour Manifesto and the legislative programme announced in July 2012, with the largest proportion of the budget allocated to health, social care and communities.”²²

Awgrymiadau ar gyfer blaenoriaethau strategol

37. Cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, awgrymodd ein rhanddeiliaid nifer o flaenoriaethau strategol ar gyfer Llywodraeth Cymru hefyd. Y blaenoriaethau amlycaf yn gyffredinol oedd galluogi adfywiad economaidd ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Er enghraifft, dywedodd TPAS Cymru:

“the first priority for Welsh Government should be prevention of social, environmental or economic problems. The outcomes for the programme of government should focus on reduction of problems through prevention rather than treatment. TPAS Cymru believes that the second priority for the programme of government should be to harness increasing proportion of public spending to regeneration and local employment.”²³

38. Yn yr un modd, awgrymodd Cartrefi i Bawb Cymru mai'r prif feysydd gwariant cyhoeddus oedd:

²¹ FIN(4) DB 19

²² FIN(4) DB 11

²³ FIN(4) DB 11

“Promoting economic activity/growth [and]... combating the human cost of a difficult economic climate to ensure when the economy recovers, the people of Wales are in a position to take the country forward, in particular investing in services that support people and also lead to longer term cost savings.”²⁴

39. Ar y llaw arall, nododd Llamau:

“difficult decisions will need to be made with regard to supporting Wales’ long term economic growth, and as importantly, the development of a just and cohesive society in Wales where we meet our responsibility to defend the rights of the most vulnerable”²⁵

Blaenoriaethau strategol cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013

40. Yn gyffredinol, bwriedir i gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013 helpu i fodloni’r amcanion a nodir yn ei Rhaglen Lywodraethu. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“We have very specific targets in terms of the five [outcomes] that were included in our programme for government. As you know, we go further in the annex. There is one for each chapter of the programme document. Our programme covers a great deal more in terms of making a difference to people’s lives and the ambitions for the next five years. The key point about milestones and assessing progress and delivery is that we will be reporting on this every year, starting in May next year—a year after we were elected. That will demonstrate what we are doing to deliver and how we are working for the people of Wales, particularly in this very uncertain global economic climate. That will be for everyone to see, to judge progress and to assess the impact and outcomes. That will be how we will show the delivery of the programme for government.”²⁶

41. Wrth gyflwyno ei chyllideb, pwysleisiodd y Gweinidog Cyllid yn benodol y ffaith ei bod yn gyllideb ar gyfer twf a swyddi. Nododd y Gweinidog fod consensws clir ar yr hyn a ganlyn:

“to take action to stimulate economic growth... the spending plans I have presented provide the support we need to deliver jobs and economic growth in Wales and direct and ongoing support for businesses to create the necessary environment for innovation. That includes the approach I have outlined for boosting capital investment, with the development of a national infrastructure plan,

²⁴ FIN(4) DB16

²⁵ FIN(4) DB 18, P1

²⁶ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 111

and exploring all potential mechanisms for leveraging in additional investment... these plans set the tone for this Assembly of a responsible Government with a credible budget and put the economic interests of Wales at the centre. From that come the opportunities for employment, training, skills development and supporting vulnerable people.”²⁷

42. Rydym yn croesawu’r aliniad ymddangosol hwn rhwng y gyllideb a’r amcanion allweddol a awgrymwyd gan ein ymgynghoreion. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu ynghylch a oedd y manylion yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn cyfateb i’r blaenoriaethau strategol hynny. Er enghraifft, gofynnodd un o’n Haelodau i’r Gweinidog beth oedd y rheswm dros gwtogi’r prif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, os bwriedir i’r gyllideb ysgogi economi Cymru. Dywedodd:

“the economy is in a worse situation than it was when you were preparing your draft budget. We see that the business, enterprise, technology and science budget, which for this year is £280 million, will decrease next year to £271 million. That is a significant cut in one year. Then, cuts... are to be implemented over the period to 2015. Given that there is a high percentage of capital in that budget, and that that is partly why those cuts look worse than the cuts for other departments, would you, in the current economic situation, be willing to reconsider the allocation to that department?... [A]t a time when we know that the economic situation is going to deteriorate, it seems very bad for the Government that the sums going to that department are decreasing more than the sums going to other departments, apart from the housing department, and that at a time of economic crisis.”²⁸

43. Nodwyd hefyd bod CLILC wedi cydnabod ei bod yn fwy tebygol y bydd toriadau yng nghyllid llywodraeth leol ar gyfer datblygu economaidd nag yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau statudol, a dywedodd hefyd:

“We are having discussions with our colleagues in services such as leisure and culture, and they tell us that they are being hit very hard. This is largely because they are non-statutory services. The same is true of economic development as, unfortunately, it is a non-statutory service. Traditionally, when it comes to budget cuts, local authorities tend to place the emphasis on those services before they cut the statutory services.”²⁹

²⁷ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Paragraffau 5-7

²⁸ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Paragraffau 5 a 90

²⁹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2011, Para 139

44. Ymatebodd y Gweinidog i'r pryderon hyn drwy ddweud:

"This is going to be about how we can support economic renewal and development, not just through the BETS MEG, but through the other levers that we have. We also have to recognise that there are some adjustments across and between these actions that we may need to clarify. However, the JEREMIE fund has attracted £60 million in European funding, and it is important that we use European funding as well to help fund the Jobs Growth Wales scheme for young people."³⁰

45. Awgrymodd y Gweinidog hefyd ei bod yn bosibl y bydd yr arian fydd ar gael yn sgil rhewi'r dreth gyngor yn Lloegr yn cael ei ddefnyddio i helpu i adfer yr economi, ac ychwanegodd:

"we believe it is important to use the nearly £40 million that will come to us in the current financial year to support the work of BETS, to support economic renewal."³¹

46. Rydym yn nodi bod y Pwyllgor Menter a Busnes wedi gwahodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i roi nodyn iddo ar yr adeg briodol sy'n amlinellu faint o'r arian ychwanegol a gaiff ei ddyrannu i'w hadran, ac at ba ddiben y bwriedir ei ddefnyddio.³²

47. Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Menter a Busnes am ofyn am y wybodaeth hon, a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru egluro ar fyrder sut y defnyddir yr arian hwn, o gofio cydnabyddiaeth y Gweinidog Cyllid fod symiau canlyniadol o'r fath ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.³³

Yr angen i nodi canlyniadau clir yn y gyllideb ddrafft

48. Pan lansiwyd ein cais am wybodaeth yn wreiddiol, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Rhaglen Lywodraethu. Fodd bynnag, roedd y Llywodraeth wedi pwysleisio'r ffaith y byddai'n ceisio defnyddio dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau, a datganodd y Prif Weinidog yr hyn a ganlyn:

"delivery will be the watchword of the next Welsh Labour government."³⁴

49. Croesawodd nifer o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad y bwriad hwn, a gwnaethant annog y Llywodraeth i fabwysiadu'r egwyddorion

³⁰ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 87

³¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 91

³² Y Pwyllgor Menter a Busnes, Llythyr at y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, 26 Hydref 2011, P4

³³ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

³⁴ BBC Wales, *Ed Miliband urges Welsh Labour to vote against 'dogma'*, 19 Chwefror 2011, ar gael yn <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-12512344>

o ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan nodi y dylai hyn sicrhau y gellid monitro a mesur llwyddiant y Llywodraeth hefyd. Er enghraifft, roedd TPAS Cymru yn croesawu'r canlynol:

“the focus on delivery which the Welsh Government has indicated that it will be pursuing in this Government term. Many within the housing sector are already working within the ‘Outcomes Agenda’.”³⁵

50. Awgrymodd nifer o'r ymgynghoreion y byddai angen monitro sut y byddai'r canlyniadau'n cael eu cyflawni, gyda Sgiliau Adeiladu Cymru yn cynnig yr hyn a ganlyn:

“outcomes could be included as part of the final budget document and therefore allow bodies such as the Finance Committee, but also other organisations measure the success, or not, of the Welsh Government.”³⁶

51. Yn yr un modd, dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn ei bod wedi trafod ffyrdd o fonitro'r effaith gyda Gweinidogion y Llywodraeth flaenorol, a nododd:

“I am not yet satisfied that suitably detailed monitoring is in place... the Welsh Government need to move much faster and further so that older people themselves consistently experience practical improvements.”³⁷

52. Ar 27 Medi 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu, y mae'r Prif Weinidog yn datgan a fydd yn nodi sut y bydd yn mesur y cynnydd o ran canlyniadau'r maniffesto, y prif gamau y bydd yn eu cymryd i fwrw ymlaen â'r cynnydd hwnnw a sut y bydd yn barnu a yw'r camau hynny'n gweithio.³⁸

53. Roedd y Gweinidog Cyllid yn dadlau bod y Rhaglen Lywodraethu yn darparu “targedau penodol iawn”.³⁹ Fodd bynnag, mynegodd pwyllgorau eraill eu pryderon ynghylch y ffaith bod diffyg targedau wedi'u canfod yn ystod y gwaith o graffu ar y gyllideb. Er enghraifft, mynegodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y pryderon a ganlyn:

“there was a lack of targets in the evidence provided by Ministers. We are concerned that the absence of targets will make it difficult for the Government to determine whether or not funding allocations are

³⁵ FIN(4) DB 11, P4

³⁶ FIN(4) DB 01, Para 4

³⁷ FIN(4) DB 14

³⁸ Llywodraeth Cymru, y Rhaglen Lywodraethu, Medi 2011, Rhagair

³⁹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 111

being used effectively and, in addition, makes it difficult for the Assembly to scrutinise the effectiveness of the budget.”⁴⁰

54. Yn yr un modd, hysbysodd y Pwyllgor Menter a Busnes y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ei fod yn pryderu ynghylch y cynnydd o ran pennu targedau perfformiad ar gyfer gweithgareddau ei hadran. Dywedodd hefyd:

“We appreciate that the Welsh Government needs to develop a more sophisticated, longer-term approach to measuring and evaluating performance, and that you are currently in the process of developing this work. You also informed us that you were establishing baselines and targets for measuring outcomes. We would like you to publish your performance measurement framework as soon as possible and we look forward to scrutinising it in due course.”⁴¹

55. Yn ei hymateb i'r pryderon hyn, dywedodd y Gweinidog Cyllid:

“The programme for government provides us with a very important way forward in terms of our planning processes. The programme for government sets out our plans on how we will seek to deliver our ambitions for Wales, the outcomes that we want to see from those and the progress of which will be measured. We will report on that progress through the annual report. The programme for government was developed alongside the budget, which will provide a more coherent package in order for the committee, the people of Wales and our partners to ascertain how we are delivering in term of outcomes. The programme offers greater coherence between our business planning and the Government’s objectives.”⁴²

56. Rydym yn cydnabod bwriad y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau cydlyniad rhwng cynllunio busnes ac amcanion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nododd un o'n Haelodau:

“I can see plenty of aspirations in the Government programme, but... [few]... specific targets.”⁴³

57. Yn ei ymateb i hyn, darparodd y Gweinidog nifer o dargedau penodol, a phwysleisiodd y ffaith na fyddai'r Rhaglen Lywodraethu yn effeithio ar y

⁴⁰ Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, P1

⁴¹ Y Pwyllgor Menter a Busnes, Llythyr at y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, P3

⁴² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

⁴³ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

targedau sy'n bodoli eisoes na'r targedau newydd a nodwyd mewn polisi manwl.⁴⁴

58. Fodd bynnag, rydym yn parhau i bryderu mai dim ond nifer fach o dargedau neu amcanion penodol gyda chanlyniadau y gellid eu mesur a gyflwynwyd yn glir i fod yn destun gwaith craffu, ac y gallai'r Pwyllgorau eu defnyddio i ystyried effaith ac effeithiolrwydd posibl y dyraniadau a gynigir yn y gyllideb ddrafft a gwerthuso'r gwerth am arian a geir yn sgil yr adnoddau a ddyrennir.

59. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol a chyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, credwn ei bod yn hanfodol bod y canlyniadau terfynol y bwriedir eu cyflawni gan ddefnyddio gwariant o'r fath yn glir i'r rheini sy'n craffu ar wariant cyhoeddus-yn ogystal â'r holl unigolion sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

60. Nodwn hefyd fod y Pwyllgor Cyllid blaenorol wedi mynegi pryderon yn ei adroddiad ar Gynigion Cyllideb Ddrafft 2011-2012⁴⁵ ynghylch cysondeb y broses o gynllunio'r gyllideb ar draws adrannau'r Llywodraeth. Yn benodol, nododd y Pwyllgor yr angen i bennu'r hyn y dylid ei gyflawni mewn ffordd gyson, fel y gellir monitro'r perfformiad a'r gwerth am arian. Nododd y Pwyllgor ei bod yn ymddangos bod cyllidebau'n cael eu dyrannu mewn rhai adrannau cyn ystyried yr hyn y dylid ei gyflawni gan ddefnyddio'r adnoddau hynny. Yn ei hymateb i'r adroddiad, dywedodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt AC) bryd hynny:

“We are in the early stages of a journey to improve our processes and the internal planning process structure is still in development. The intention is that this structure and planning process will increasingly enable Ministers to better understand how they are using resources to deliver outcomes and the effectiveness of these.”⁴⁶

61. Mae'r dystiolaeth a gawsom gan bwyllgorau eraill yn awgrymu bod nifer o adrannau yn gosod cyllidebau cyn ystyried beth a gyflenwir wrth ddefnyddio'r adnoddau a sut y caiff llwyddiant ei fesur.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio tuag at sicrhau bod y canlyniadau a fwriedir yn sgil gwario arian cyhoeddus – a'r dulliau o fonitro hyn – yn cael eu nodi a'u cyhoeddi'n gyson mewn modd amserol sy'n galluogi gwaith craffu effeithiol ar ba mor ddigonol yw cynigion cyllideb Llywodraeth Cymru ac ar eu gwerth am arian.

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

⁴⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, [Adroddiad ar GEN-LD8296 – Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#), Ionawr 2011

⁴⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, [FIN\(3\)-05-11 : Papur 2 : Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2011-12](#), (Saesneg yn unig) 2 Mawrth 2011

4. 2. Sut y cyflwynwyd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013

Yr angen am dryloywder

62. Cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, pwysleisiodd nifer o ymgynghorion bwysigrwydd cyflwyno'r gyllideb mewn modd agored a thryloyw. Er enghraifft, dywedodd Sgiliau Adeiladu Cymru yr hyn a ganlyn:

“Any changes to spending priorities or budget allocations should be **clearly** outlined in the explanatory information, with information provided by the Welsh Government as to the reasons behind the changes and the expected impact of these decisions. Without this information the success of the decision cannot be effectively judged.”⁴⁷

63. Yn yr un modd, nododd Achub y Plant fod yr hanes o ddiffyg tryloywder mewn perthynas â gwariant cyhoeddus ar blant yn golygu nad yw'n bosibl ar hyn o bryd i wybod, heb fod gwaith dadansoddi mwy manwl yn cael ei wneud, a yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r eithaf er mwyn gwireddu hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac a oedd digon o arian yn cael ei wario i fodloni'r amcan canmoladwy o gael gwared ar dlodi plant erbyn 2020. Dywedodd hefyd:

“we would like to see a child friendly version of the Welsh Government's budget proposals produced to help engage children and young people with the consultation process.”⁴⁸

64. Roedd Achub y Plant yn argymhell yr hyn a ganlyn:

“[we need] much greater detail on specific areas of spend where the level of resource allocated to children is not easy to track (for example on health) and further detail on how the budget will translate into delivery on the commitments included in the Child Poverty Strategy at local level”⁴⁹

65. Awgrymodd Sgiliau Adeiladu Cymru hefyd y byddai cael mwy o amser i ystyried y gyllideb ddrafft yn ei gwneud yn haws craffu arni, a dywedodd:

“if the Welsh Government and the Finance Committee are able to consult for an appropriate length of time with a range of organisations (and CSW is pleased to have this opportunity comment

⁴⁷ FIN(4) DB 1, P5

⁴⁸ FIN(4) DB 17

⁴⁹ FIN(4) DB 17

at this early stage) it will ensure that the Welsh Government's budgets are not presented (or at least *perceived*) as a *fait accompli*."⁵⁰

66. Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid ynghylch yr angen am dryloywder, ac roeddem yn fodlon gyda sylwadau'r Gweinidog, cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, ei bod wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd agored a thryloyw, a'i bod yn gobeithio y bydd hynny'n gwneud y gwaith craffu mor effeithiol â phosibl.⁵¹

Cymharu'r cyllidebau

67. Fodd bynnag, ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, mynegodd sawl pwyllgor bryder ynghylch ei thryloywder. Er enghraifft, dywedodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc fod ganddo bryderon difrifol ynghylch sut y cyflwynwyd y gyllideb a'r diffyg tryloywder ac atebolwydd, yn enwedig yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant. Dywedodd hefyd:

"Members felt this compromised their ability to fulfil their role in scrutinising the Department's budget and in holding the Minister to account."⁵²

68. Yn yr un modd, nododd y Pwyllgor Menter a Busnes fod ganddo bryderon difrifol ynghylch sut y cyflwynwyd y gyllideb a'r diffyg eglurder ym mhapur y Gweinidog ynghylch llinellau sylfaen a throsglwyddo arian. Dywedodd hefyd:

"We believe this compromised our ability to fulfil our role in scrutinising the Department's budget and in holding Ministers to account on behalf of the people of Wales."⁵³

69. Gofynnwyd i'r Gweinidog ymateb i'r pryderon hyn a dywedodd:

"I recognise there are issues regarding presentation and the transparency of our budget proposals, and I want to learn from you how we can improve... or explain how we have made the presentation this year."⁵⁴

70. Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am roi'r sicrwydd hwnnw. O gofio hynny, nodwn y mynegwyd pryderon ynghylch y defnydd o ffigurau llinell sylfaen gwahanol ar gyfer cymharu cyllidebau. Yn benodol, defnyddiodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ffigurau llinell sylfaen o'i gyllideb weithio, a

⁵⁰ FIN(4) DB 1, P5. Daw'r pwyslais a geir yn y testun sydd mewn italics ac mewn teip trwm o'r papur gwreiddiol

⁵¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2011, Para 6

⁵² Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Llythyr at y Pwyllgor Cyllid, 20 Hydref 2011, tud 1.

⁵³ Y Pwyllgor Menter a Busnes, Llythyr at y Pwyllgor Cyllid, 20 Hydref 2011, tud 1.

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

oedd ychydig yn wahanol i'r gyllideb a gyhoeddwyd, y mae'r llinellau sylfaen yn y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol wedi'u seilio arni bob tro.⁵⁵

71. O ganlyniad, dywedodd y Pwyllgor Menter a Busnes yr hyn a ganlyn wrth y Gweinidog Addysg a Sgiliau:

“the confusing presentation of changes made to the Education and Skills Main Expenditure Group has made it very difficult for us as a Committee to track and scrutinise those changes. In particular, the baselines referred to in your paper did not match those in the published budget documents, and there was a lack of clarity between indicative plans at the time of the supplementary budget, the transfers made and what the budget is now.”⁵⁶

72. Mynegodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol bryderon hefyd ynghylch yr hyn a ganlyn:

“the HM Treasury GDP deflator figure, as generally used in budget planning, may not be particularly relevant for the healthcare budget as healthcare inflation tends to be higher than standard levels of inflation. In their evidence to us, health officials suggested that more relevant inflation figures were used when planning healthcare budgets, but no further detail was provided as to the assumptions used to derive real-terms impacts of the budget changes.”⁵⁷

73. Yn ogystal, nodwn fod dogfen naratif Llywodraeth Cymru yn dangos cymariaethau â'r ffigurau dangosol o'r gyllideb atodol, yn hytrach na chymariaethau fesul blwyddyn. Nid oedd hyn yn gyson ar draws adrannau'r Llywodraeth, ac roedd y Pwyllgor Menter a Busnes yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog Busnes, Menter, Trafnidiaeth a Gwyddoniaeth, i'r gwrthwyneb, wedi darparu papur lle'r oedd y mwyafrif o'r gwaith dadansoddi yn canolbwyntio ar newidiadau fesul blwyddyn.⁵⁸

74. Gofynnwyd i'r Gweinidog Cyllid pam mae ei chyllideb ddrafft wedi'i chyflwyno gan ddefnyddio cymariaethau â ffigurau dangosol cyllideb atodol 2011-2012, yn hytrach na defnyddio'r dull mwy cyffredin o ddangos newidiadau fesul blwyddyn. Yn ei hymateb, dywedodd y Gweinidog:

“The way that we have presented it is consistent with the standard practice of using the latest published figures. That is the issue to do with the comparisons. We have used the first supplementary budget of 2011-12 as the baseline, adjusted to remove non-recurrent

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

⁵⁶ Y Pwyllgor Menter a Busnes, Llythyr at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 20 Hydref 2011

⁵⁷ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr at y Pwyllgor Cyllid, Hydref 2011, P1

⁵⁸ Y Pwyllgor Menter a Busnes, Llythyr at y Gweinidog Busnes, Menter, Trafnidiaeth a Gwyddoniaeth, P1

allocations. The important thing is that those indicative allocations are built on the development from the first supplementary budget.”⁵⁹

75. Dywedodd swyddog o Lywodraeth Cymru wrthym hefyd:

“The way that we have presented the numbers this year is the standard way that we present figures. It is probably worth mentioning the situation last year, which was quite unusual in that we were publishing a budget without having already published a set of indicative plans for future years, because we were at the start of a spending review period. When we published this budget, we had already set out plans for three years. So, the standard practice is to show the changes from those already published plans, as opposed to showing changes from a base year. It would be interesting to know whether the committee prefers that form of presentation or a different form of presentation.”⁶⁰

76. Rydym yn nodi bod y ddogfen naratif ar gyfer cyllideb 2010-2011 yn cynnwys ffigurau o gynlluniau dangosol ar gyfer 2010-2011 a ddaeth o Gyllideb Derfynol 2009-10 ym mis Rhagfyr 2008.⁶¹ Fodd bynnag, roedd y ddogfen naratif ar gyfer cyllideb 2010-2011 yn dangos yn benodol y newid canrannol rhwng 2009-10 a 2010-11⁶² gan ddefnyddio llinell sylfaen y flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer cymharu (fel y nodwyd yn y gyllideb atodol ddiweddaraf ar y pryd: cyllideb atodol 2009-10).

77. Rydym yn nodi ac yn croesawu'r datganiad a ganlyn a wnaed gan y Gweinidog:

“if there is anything else that we can do about the nature and format of the information that we present, as a Government, to respective scrutiny committees, we can think more about that.”⁶³

78. Credwn fod rhywfaint o werth mewn gallu craffu ar y newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru rhwng ei chynigion dangosol ar gyfer blwyddyn ariannol benodol. Mae hyn yn ein galluogi i graffu ar y graddau y mae Llywodraeth yn glynu at ei chynigion dangosol gwreiddiol, neu'n gwahaniaethu oddi wrthynt. Credwn y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Llywodraeth yn gwneud cymariaethau o'r fath.

79. Fodd bynnag, credwn fod mwy o werth mewn gallu craffu ar newidiadau yn y gyllideb gan ddefnyddio cymariaethau fesul blwyddyn, er

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 9.

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 12

⁶¹ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2010-2011, Hydref 2009, Nodyn ar dablau 1.2 a 1.3, tud 8.

⁶² Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2010-2011, Hydref 2009, tabl 1.1

⁶³ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

mwyn gweld effaith bosibl unrhyw newidiadau yn y gyllideb y mae Llywodraeth Cymru yn ei llunio. Credwn ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n gwneud cymariaethau o'r fath.

Tryloywder yr arian a delir i Gronfa Gyfunol Cymru

80. Cawsom ein hysbysu gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ei fod wedi trafod â Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd beth sy'n digwydd i'r taliadau a gaiff y Comisiwn Coedwigaeth fel landlordiaid o gynlluniau ffermydd gwynt ar dir a reolir gan y Comisiwn.⁶⁴

81. Nodwn fod Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi dweud wrth y Pwyllgor hwn fod yr arian yn mynd i'r gronfa gyfunol. Dywedodd hefyd:

“It does not come directly to me or the environment department, sadly, but goes into the general coffers of the Welsh Government. As I said earlier, sustainable development is a central organising principle and applies right across the Welsh Government, in any event. I would hope that those moneys would be put to good use, respecting that principle.”⁶⁵

82. O ganlyniad, mynegodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd bryder fod y taliadau hyn yn mynd i'r gronfa gyfunol ac nad ydynt yn destun gwaith craffu o unrhyw fath yn un o linellau cyllideb y Gweinidog.⁶⁶

83. Wrth ymateb i'r pryderon hyn, dywedodd y Gweinidog Cyllid, gan fod yr incwm o daliadau o'r fath yn gyfnewidiol iawn, nid oeddynt wedi'u cynnwys yn y gyllideb ddrafft. Yn lle hynny, roedd y taliadau'n cael eu cyfrifo o fewn y flwyddyn ariannol. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd y byddai'n eu cynnwys yn y gyllideb atodol ym mis Chwefror.⁶⁷

84. Credwn y dylid defnyddio taliadau o'r fath at ddibenion yr amgylchedd a chynaliadwyedd. Rydym yn rhagweld y byddwn yn craffu ar daliadau o'r fath fel rhan o'n hystyriaeth o gyllideb atodol y Llywodraeth ym mis Chwefror.

Craffu ar Wasanaethau Canolog a Gweinyddu Llywodraeth Cymru

85. Pan wnaethom holi'r Gweinidog Cyllid ynghylch y cynnydd o £1.2 miliwn yn y costau staffio yn y Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog, dywedodd wrthym:

⁶⁴ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Llythyr at Weinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 25 Hydref 2011, P3

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 19 Hydref 2011, Para 162

⁶⁶ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Llythyr at Weinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 25 Hydref 2011, P3

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

“this is the responsibility of the Permanent Secretary, but I am happy to give some clarification on the point, although you may wish to write to the Permanent Secretary about this.”⁶⁸

86. Rydym yn bwriadu gwahodd yr Ysgrifennydd Parhaol i ymateb i'r materion hyn, ond oherwydd cyfyngiadau amser, nid oeddem yn gallu ystyried y mater hwn wrth baratoi ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

Prydlondeb y manylion a ddarparwyd mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft

87. Yn olaf, mynegodd CGGC y pryderon a ganlyn wrthym:

“it is difficult for us to scrutinise and assess the impact on the sector effectively. We do not have the detail under that action level, so it is hard for us to know, and hard for external organisations to understand, what the impact might be. We would ask that the committee requests that the Minister for Finance publish that more detailed level in future, to help external organisations engage with the budget scrutiny process, and that each Minister assess the impact of their budget on the third sector.”⁶⁹

88. Ar y mater hwn, rydym yn falch bod y Gweinidog wedi dweud yr hyn a ganlyn:

“as far as the Wales Council for Voluntary Action is concerned, I have asked my officials... to provide a breakdown of budget action tables.”⁷⁰

89. Mae sefydliadau eraill wedi mynegi eu pryderon hefyd ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid iddynt ddisgwyl am amser hir cyn canfod beth fydd goblygiadau'r gyllideb ddrafft iddynt hwy. Er enghraifft, dywedodd Cymorth i Fenywod Cymru na chafodd yr elusen a nifer o asiantaethau trydydd sector eraill eu hysbysu ynghylch eu cyllidebau ar gyfer 2011-12 tan ddiwedd mis Mawrth 2011. Dywedodd hefyd:

“As a result, all staff were given their redundancy notices. This eleventh-hour notification of funding has unfortunately been rather commonplace within the sector for some time, but in times when all staff members are aware that the financial situation is extremely

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 121

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

difficult and cuts are likely, it is extremely damaging to morale and inhibits effective collaborative working.”⁷¹

90. Yn yr un modd, dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn fod angen yr hyn a ganlyn:

“more surety of funding ... this would enable the Commission to enhance our strategic planning and make the most effective use of our resources.”⁷²

91. Mynegodd y Pwyllgor Menter a Busnes yr un pryderon ynghylch prydlondeb y wybodaeth a ddarperir, gan ddweud:

“our task was made even harder by the fact that we received crucial information [from the Minister for Education and Skills] only the day before our scrutiny session [on 12 October].”⁷³

92. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi gosod y gyllideb ddrafft ar 4 Hydref eleni. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod amryw o Weinidogion wedi darparu papurau i bwyllgorau gwahanol yn cynnwys rhagor o fanylion (er enghraifft ynghylch y llinellau gwariant yn y gyllideb) a sylwadau naratif ar ddyraniadau cyllidebol arfaethedig eu hadrannau.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, wrth gyflwyno cyllidebau drafft yn y dyfodol, yn darparu newidiadau arfaethedig i'r gyllideb flwyddyn ar ôl blwyddyn (gan ddefnyddio ffigurau o gyllideb ddiweddaraf y flwyddyn ariannol flaenorol fel llinell sylfaen).

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, wrth gyflwyno cyllidebau drafft yn y dyfodol, yn ymdrechu i ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol y gwneir cais amdani ar ddyraniadau cyllidebol arfaethedig (gan gynnwys manylion y dyraniadau o fewn adrannau, fel llinellau gwariant yn y gyllideb) i Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ddarparu digon o fanylion i graffu arnynt ar ffurf gyson a chydgysylltiedig pan gyhoeddir y gyllideb ddrafft, neu mor agos at yr amser hwnnw ag sy'n rhesymol bosibl.

Rydym yn argymhell bod y Gweinidog Cyllid yn ymateb i bryderon Pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn gwrando ar sylwadau'r rhanddeiliaid, er mwyn gwella prydlondeb a lefel y manylion a gyhoeddir yng nghynigion y gyllideb ddrafft er mwyn gallu craffu arnynt yn fwy effeithiol mewn perthynas â meysydd penodol.

⁷¹ FIN(4) DB 12

⁷² FIN(4) DB 14

⁷³ Y Pwyllgor Menter a Busnes, Llythyr at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 20 Hydref, P2

3. Buddsoddi cyfalaf

Cyllid cyfyngedig ar gyfer buddsoddi cyfalaf

93. Roedd cyllideb 2011-2012 yn cynnwys gostyngiad syllweddol yn y cyllid ar gyfer buddsoddi cyfalaf o ganlyniad i Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010. Cyn cyhoeddi cyllideb ddrafft eleni, mynegodd CLILC bryderon ynghylch y ffaith bod cyllid cyfalaf cyfyngedig ar gael, a nododd fod hyn yn broblem i wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Dywedodd hefyd:

“We face continuing pressures in that regard. We have been through a couple of harsh winters, which have caused damage to roads across Wales. Our ability to find the funding to resurface the roads, and so on, remains a challenge. That is one issue. We continue to be concerned about the shortfall in capital available for areas such as housing. There is no doubt that it is also an issue for the Welsh Government in areas like health... when the budget came out last year, I was surprised at how restrained you all were about the announcement on capital. I thought that it would cause a row, because it is a savage cut: it is 40 per cent. We have huge problems in local government. School stocks is one of them, but local roads is another. Capital funding is becoming the big debate that we really have to start paying attention to.”⁷⁴

94. Yn yr un modd, argymhellodd Hosbisau Cymru yr hyn a ganlyn:

“the Welsh Government should consider a time-limited capital investment programme for hospice care.”⁷⁵

Barn Gweithredu dros Blant, ar y llaw arall, oedd y canlynol:

“Capital... spending must facilitate the improvement of community infrastructure, (such as integrated children’s centres, community centres, community-focused schools, youth and leisure centres) to make health, social care and other family support services fit for purpose and fully accessible to all.”⁷⁶

95. Mynegodd Cartrefi i Bawb Cymru bryder hefyd ynghylch y ffaith bod y dyraniadau dangosol yng nghyllideb 2012-13 yn cynnig y bydd gostyngiad o 12.5 y cant yn y buddsoddiad cyfalaf i gynyddu nifer y tai sydd ar gael a’r dewis ohonynt. Dywedodd hefyd:

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2011, Paragraffau 84 a 212

⁷⁵ FIN(4) DB 19, P4

⁷⁶ FIN(4) DB 07, P2

“Wales needs to achieve 14,000 new dwellings a year between 2006 and 2026 to meet housing need⁷⁷. At a time when affordability, due to a lack of supply, is the key issue constraining the Welsh housing market, cutting funding in this area is retrogressive. Making best use of the existing stock by, for example, bringing more of Wales’ 26,000⁷⁸ empty homes back into use, could be more cost-effective at meeting housing need than relying solely on new build.”⁷⁹

96. Yng nghyllideb ddrafft 2012-2013, nodwyd mai £1.1 biliwn yw’r terfyn gwariant adrannol cyfalaf a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru yn 2012-2013, sef gostyngiad o £79.2 miliwn, neu 6.5 y cant, ers 2011-2012. Mewn termau gwirioneddol, roedd hyn yn cynrychioli gostyngiad o 8.8 y cant. Nododd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod maint y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf a dywedodd ei fod yn croesawu gonestrwydd y Dirprwy Weinidog ynghylch lefel y toriadau i wariant cyfalaf yn ei phortffolio.⁸⁰

97. Cadarnhaodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau hefyd fod swm cyfyngedig iawn o gyllid cyfalaf ar gael bellach, a dywedodd:

“We are in a very different place in terms of finances: local authorities have had a cut in the twenty-first century schools programme; there is big pressure on local government delivery; and the transport budget was hit extremely hard in terms of its capital spend element.”⁸¹

98. Cydnabu’r Gweinidog Cyllid fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn agored iawn ynghylch yr heriau a wynebwn yn sgil toriadau yng nghyllideb y DU, yn arbennig mewn perthynas â chyllid cyfalaf.⁸² Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog hefyd, er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod swm cyfyngedig o arian ar gael ar gyfer buddsoddi cyfalaf, ei bod yn gwneud pob dim posibl i drosglwyddo arian i’w chyllideb gyfalaf. Dywedodd hefyd:

“We looked at the transfer from revenue to capital in terms of what we describe, and you know, as the centrally retained capital fund. We anticipated about £57 million transferring from revenue to capital.”⁸³

⁷⁷ Llywodraeth Cymru (2010) Yr angen a’r galw am dai yng Nghymru 2006 i 2026

⁷⁸ Sefydliad Tai Siartredig Cymru a Shelter Cymru (Mehefin 2009) ‘Eiddo Gwag: Gwneud y mwyaf o’r stoc bresennol’

⁷⁹ FIN(4) DB 16

⁸⁰ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, P3

⁸¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 20 Hydref 2011, Para 110

⁸² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

⁸³ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 22

Yr angen i ddefnyddio cyllid cyfalaf cyfyngedig mewn modd amserol a strategol

99. O gofio'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael i ateb anghenion y sector cyhoeddus, credwn ei bod yn hanfodol y caiff y cyllid cyfalaf sy'n weddill ei ddefnyddio mewn modd mor effeithiol â phosibl. Credwn fod gan fuddsoddi cyfalaf rôl arwyddocaol i'w chwarae o ran hyrwyddo a datblygu economi Cymru.

100. Fodd bynnag, dywedodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ei fod yn teimlo bod diffyg gweledigaeth strategol ac roedd yn holi sut y byddai Llywodraeth Cymru yn nodi lle y dylid defnyddio'r cyllid cyfalaf. Dywedodd hefyd:

“Concern was raised over the delivery of the 21st Century Schools programme, with the draft budget indicating a large reduction in capital expenditure, but no indication of how the reduced budget was to be allocated. Members also questioned why the Minister was unable to advise on the capital allocation to local authorities to enable forward planning, especially as the Minister for Local Government and Communities had announced his provisional Local Government Settlement for 2012-13 on 18 October.”⁸⁴

101. Yn yr un modd, dywedodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrthym fod ganddo bryderon difrifol ynghylch yr effaith y gallai'r oedi cyn gwneud penderfyniadau ei gael ar roi prosiectau cyfalaf ar waith mewn modd prydlon yn y dyfodol, yn enwedig ar adeg pan fo cynlluniau cyfalaf cyhoeddus mor bwysig i'r economi ehangach.⁸⁵

102. Gwnaeth y Pwyllgor Cyllid blaenorol yn y Trydydd Cynulliad sylwadau yn y gorffennol ar bwysigrwydd y ffordd y mae'r Llywodraeth yn datblygu ei dull strategol o ddefnyddio adnoddau cyfalaf.⁸⁶ Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn gan geisio dwyn ei rhaglenni cyfalaf ynghyd mewn ffordd strategol yn y cynllun seilwaith cenedlaethol. Dywedodd hefyd:

“but the point about the plan is that it is taking us beyond the programmes. It is going to be about how we identify key infrastructure priorities across the economy, transport, education and health and social services. We are already being more strategic

⁸⁴ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 26 Hydref 2011, Atodiad, P2.

⁸⁵ Llythyr at y Pwyllgor Cyllid gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Craffu ar gynigion y Gyllideb Ddrafft 2012-13, 26 Hydref 2011

⁸⁶ Pwyllgor Cyllid y Trydydd Cynulliad, Adroddiad ar GEN-LD8296 - Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2011-12, Ionawr 2011, Para 64

about our programming, and we need to use what we already have in the capital programme as the baseline for that.”⁸⁷

103. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i'r Gweinidog Cyllid a oedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gorfod rhoi'r rhaglenni cyfalaf newydd i'r neilltu am y tro tan ei bod wedi cael sylwadau gan y Byrddau Iechyd Lleol ynghylch yr hyn y maent am ei wneud yn y dyfodol⁸⁸, dywedodd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw oedi o'r fath.⁸⁹

104. I'r gwrthwyneb, dywedodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrthym:

“The Minister [for Health and Social Services] stated that decisions on strategic healthcare expenditure were on hold while healthcare service plans were developed.”⁹⁰

105. Rydym yn pryderu ynghylch y ffaith nad oedd y Gweinidog Cyllid yn ymwybodol bod prosiectau cyfalaf o'r fath wedi'u rhoi i'r neilltu dros dro ar hyn o bryd. Mae'n destun pryder i ni hefyd nad oedd wedi gallu rhoi gwybodaeth i ni ynghylch pryd y byddai'r broses o ailflaenoriaethu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn digwydd.⁹¹ Credwn fod hyn yn adlewyrchu'r angen i Lywodraeth Cymru wella ei throsolwg strategol o'i rhaglenni cyfalaf ymhellach.

106. Rydym hefyd yn pryderu y bydd oedi dianghenraid cyn cyhoeddi a chyflwyno prosiectau cyfalaf yn cael effaith andwyol ar economi Cymru. Rydym hefyd yn pryderu, os na ddefnyddir yr arian ar gyfer buddsoddi cyfalaf, y bydd hynny o bosibl yn cyfyngu ar gapasiti Cymru i ddadlau bod angen iddi gael rhagor o arian ar gyfer buddsoddi cyfalaf gan Lywodraeth y DU mewn blynyddoedd i ddod. O ran y materion hyn, ceisiodd y Gweinidog Cyllid roi sicrwydd i ni nad oedd unrhyw arian yn cael ei gadw'n ôl o ran gwariant cyfalaf⁹² ac y byddai'r holl brosiectau cyfalaf y gallai Llywodraeth Cymru eu hariannu yn cael eu hariannu, ac na fyddai unrhyw arian yn cael ei golli.

107. Felly, rydym yn croesawu ymdrechion Llywodraeth Cymru i ymdrin â'i rhaglenni cyfalaf mewn modd strategol, ond rydym yn rhagweld y bydd yn cydweithio â'i phartneriaid, gan gynnwys y rheini mewn llywodraeth leol, wrth barhau i ddatblygu trosolwg mwy strategol.

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 99

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

⁹⁰ Llythyr i'r Pwyllgor Cyllid gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Craffu ar gynigon y Gyllideb Ddrafft 2012-13, 26 Hydref 2011

⁹¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

⁹² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

Y potensial i gynyddu'r cyllid ar gyfer buddsoddi cyfalaf

108. Awgrymodd CLILC hefyd y gellid gwneud mwy o waith i ganfod ffyrdd mwy arloesol o wario cyllid cyfalaf, gan gynnwys y Cynulliad yn galluogi awdurdodau lleol i fenthyca â chymorth. Dywedodd hefyd:

“It might well be a one-off, but there are ways of bringing more money into the Welsh economy. We have to be radical about that.”⁹³

109. Dywedodd CLILC yr hyn a ganlyn wrthym hefyd:

“started discussions with Welsh Government officials about the need for a more strategic group to look at the whole of public sector capital needs, the availability of capital and the options for, potentially, generating more resources to deal with the needs that we have. That is looking not just at schools, but also transport and economic development opportunities. That would also be about looking at the whole budget and being able to say that if we do certain aspects of borrowing you can then release resources that are in the Welsh block to spend on other non-commercial generating schemes, such as schools. It is about translating that from an idea into reality and how we can make that happen.”⁹⁴

110. Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i edrych am ffyrdd newydd, effeithiol o gael gafael ar gyllid preifat. Dywedodd hefyd:

“this will be part of our national infrastructure plan discussions with our private sector partners... it is important that we use the new borrowing opportunities that...can help us to bring forward capital investment projects. However, we must recognise that this has to be done in partnership with local government to see the way forward.”⁹⁵

111. Fodd bynnag, rhybuddiodd y Gweinidog Cyllid y byddai'n rhaid talu am unrhyw arian newydd a gaiff ei fenthyca o hyd yn y pen draw, a dywedodd:

“We need to be clear about liabilities that arise from that new borrowing, and it has to be a fair exchange in terms of capital projects that would be supported.”⁹⁶

112. Roedd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cydsynio â'r pryderon hyn, a nododd:

⁹³ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2011, Para 96

⁹⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2011, Para 100

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Paragraffau 24 a 29

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 37

“The technical problem that we have found is that when you support the borrowing of local authorities, the debt comes back onto Welsh Government spreadsheets, so the debt comes back to us, potentially reducing the block grant that we receive from Westminster. It is quite complex. We are trying to find a different way of doing supported borrowing with local authorities without having the debt on our books. That is the complexity of this... we must remember that we are a Government for a term and we are talking of borrowing terms of 20 to 25 years, so we have to make sure that this is right for the future as well. We are potentially committing Governments of the future to investments in supported borrowing. There is only one pot of money, whether it is capital or revenue, and you have to balance that in terms of getting the distribution right... We recognise that there is possibly an opportunity to invest a revenue stream for supported borrowing in road maintenance, which would give us a long-term opportunity to fix all of the roads in Wales quite easily if we could get supported borrowing from local authorities as well.”⁹⁷

113. Eglurodd y Gweinidog Cyllid hefyd ei bod yn bosibl nad benthycia â chymorth yw'r ffordd o roi hwb i fenthyciadau llywodraeth leol:

“Treasury budgetary rules... [state that] the budgetary cover for supported borrowing does score in the Welsh Government capital... What we're talking about is how we can boost unsupported borrowing by local authorities... so that it would not score against Capital DEL.”⁹⁸

114. Cefnogwn Lywodraeth Cymru yn y broses o archwilio'r posibilrwydd o roi hwb i fenthycia gan awdurdodau lleol, fel dull posibl o gynyddu'r arian ar gyfer buddsoddi cyfalaf, ond rydym hefyd yn ymwybodol o effeithiau hirdymor benthyciadau o'r fath ar gyllid yr awdurdodau unigol.

115. Rydym yn cydnabod pryderon pwylllog y Llywodraeth ynghylch yr effaith y gallai benthycia o'r fath ei chael ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn y dyfodol. Nid yw hyn o reidrwyd yn golygu diystyru'r posibilrwydd o gael benthyciadau o'r fath: rhan o rôl unrhyw Lywodraeth yw gwneud penderfyniadau ac ymrwymadau a fydd yn cael effaith y tu hwnt i'w chyfnod mewn grym. Fodd bynnag, credwn y byddai'n synhwyrol i Lywodraeth Cymru sicrhau y gellir cyfiawnhau y caiff penderfyniadau o'r fath eu gwneud er budd pobl Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n gyflym i ddatblygu dull strategol ar gyfer defnyddio ei chyllid cyfalaf, gan gyflwyno adroddiadau pob chwarter i'r Pwyllgor Cyllid ar ei chynnydd.

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 20 Hydref 2011, Paragraffau 99 a 107

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

Rydym yn argymhell y dylai hyn egluro pa elfennau o wariant cyfalaf arfaethedig Llywodraeth Cymru a gaiff eu cynnwys yn y Cynllun Seilwaith Cenedlaethol er mwyn gallu gwneud gwaith craffu arno.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio pob ffordd i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyllido cyfalaf ac i wneud y mwyaf ohonynt, ac i sicrhau'r manteision mwyaf i Gymru. Rhagwelwn y byddai hyn yn cynnwys gwneud dadansoddiad cadarn o ganlyniadau tymor byr a hirdymor dulliau o'r fath ar gyfer cynyddu cyllido cyfalaf i Gymru. Rhagwelwn y byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno adroddiad i ni bob chwarter ar y materion y cyfeirir atynt yn yr argymhellion hyn.

4. Pa mor ddigonol yw swm yr arian wrth gefn sydd gan Lywodraeth Cymru

116. Mae naratif y gyllideb ddrafft yn dangos mai £127 miliwn sydd yn y gronfa refeniw sydd bron yn arian parod ar gyfer 2012-13.⁹⁹ Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog Cyllid wrthym fod rhywfaint o'r arian wrth gefn eisoes wedi'i neilltuo at ddibenion penodol:

“In terms of the reserves for 2012-13, to clarify, we have provisionally earmarked £12.2 million for the non-recurrent funding for orthopaedic services. That will be an in-year allocation, and will of course be subject to certain milestones in terms of delivery. You mentioned £15 million of transitional support to help public services in their transition to new, more efficient forms of service delivery.”¹⁰⁰

117. Eglurodd y Gweinidog mai £99.5 miliwn, sef 0.74 y cant o derfyn gwariant adrannol adnodd cyllidol Cymru, yw swm yr arian wrth gefn, ar ôl hepgor y dyraniadau a neilltuwyd eisoes. Dywedodd hefyd:

“As you are aware, this is where we have to be clear about the risks that we are taking on with regard to the management responsibilities of the spend. I have already identified that the allocations that I have outlined have to be subject to delivery milestones, but we are confident about this level of reserve. We do not want to leave the year with a level of reserve; we want to spend the reserve as planned for the following year.”¹⁰¹

118. Nodwyd hefyd fod y Gweinidog wedi datgan bod £6.5 miliwn o'r arian Buddsoddi i Arbed wedi dod o dderbynebaw a ailgylchwyd, yn hytrach nag o'r arian wrth gefn. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog hefyd fod y derbynebaw hyn yn cynnwys £0.7 miliwn o daliadau a ailgylchwyd, o 2010-2011. Dywedodd hefyd:

“So far this year, we have received £2 million in receipts, and a further £2.7 million is due before the end of the year.”¹⁰²

119. Nodwyd gennym mai £5.4 miliwn yw cyfanswm y derbynebaw hyn a gafwyd ac a ragamcanwyd, ac roeddem yn pryderu y gallai hyn awgrymu bod angen rhagor o arian o gronfa wrth gefn Llywodraeth Cymru.

120. Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd yn credu bod swm yr arian wrth gefn sydd gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol, o gofio'r potensial ar gyfer

⁹⁹ Llywodraeth Cymru, [Doagfen Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13](#), Hydref 2011

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 45

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 49

¹⁰² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

argyfwng annisgwyl, fel yr argyfwng Corus tua 10 mlynedd yn ôl, a arweiniodd at fuddsoddi sylweddol yn ardaloedd Casnewydd a Blaenau Gwent. Dywedodd y Gweinidog:

“That would have had to come entirely from the Assembly’s reserves, and, from memory, it must have been about £50 million, or maybe more than that. That would be the type of crisis to which the Welsh Government would have to respond. If something like that happened again, are you happy that you have enough resource to cope with it?”¹⁰³

121. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud:

“We would very much hope that we would not have to face that kind of situation again, but you cannot predict it. On the other hand, we have the opportunity to shift money; I have mentioned the centrally retained capital fund and also transitional support funding, which must be about spending on change and development within the public sector. However, there is room for manoeuvre within the allocations that we have made. I would say very clearly to this Finance Committee that, in these challenging times, I have to take the risk on delivering a budget that enables us to get money out for the economy and for public services, and I would not want money in my reserves. I would also say that I look to the reserves held by local authorities, for example, which are extraordinarily varied in their amounts, and one wonders for what purpose they are holding them.”¹⁰⁴

122. Rydym yn nodi bod y Gweinidog Cyllid wedi cydnabod y risgiau sy’n bodoli o ganlyniad i gyfyngu ar y symiau o arian a gedwir wrth gefn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013. Credwn ei bod yn fwy hanfodol hyd yn oed yn yr hinsawdd ariannol bresennol bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull priodol o reoli risg mewn perthynas â chynllunio ariannol (yn hytrach na dull gwrth risg).

123. Fodd bynnag, o gofio’r swm cyfyngedig o arian wrth gefn, rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos nad yw effeithiau cyllidebol llawn nifer o ymrwymadau’r Llywodraeth wedi’u pennu hyd yn hyn, neu eu bod yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Dywedodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr hyn a ganlyn wrthym:

“concerned about the budgetary impact of Government commitments and planned legislation, four of which are set out in an Annex to this letter. In our scrutiny session, Ministers emphasised that each were

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 51

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 52

still subject to discussion, with no as-yet settled conclusions about the budgetary implications of these commitments in future years. We remain concerned at the potential impact which delivering these commitments may produce in future budget planning rounds, and intend to keep this issue under review, in our own future work programme.”¹⁰⁵

124. Nododd y Pwyllgor Menter a Busnes a’r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol fod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wrthi’n adolygu’r cynlluniau gwario o hyd. Dywedodd y Pwyllgor:

“We appreciate that some degree of flexibility will be required to adjust your Department’s spending to changes in your priorities, and also to changes in the economic climate as they arise. However, there also needs to be a core spend that allows us as a Committee to monitor expenditure over consecutive years and to evaluate the activities of your Department against set targets and outcomes. You have stated that such targets are still in the process of being formulated.”¹⁰⁶

125. Dywedodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wrthym hefyd:

“it was anticipated that further funding would be allocated to CAFCASS Cymru in 2012-13, over that which was in the draft budget proposals, and that this would come from central funds. Members were concerned about the potential impact this would have on funding for other programmes and asked for regular updates on the programmes affected.”¹⁰⁷

126. Nododd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei ohebiaeth i Weinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd:

“We discussed with you the allocation for TB compensation in the budget. We welcome your clarification that the current figures are based on the historical payments for last year. We are concerned, however, that, due to the cyclical nature of the incidence of TB there may not be sufficient funds available to cover any increase in compensation payments.”¹⁰⁸

¹⁰⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 26 Hydref 2011, P2

¹⁰⁶ Y Pwyllgor Menter a Busnes, Llythyr at y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, 26 Hydref 2011, P2

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 26 Hydref 2011, Atodiad, P3

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Llythyr at Weinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 25 Hydref 2011, Paragraffau 1-2

127. Rydym yn cydnabod y gallai nifer o'r ymrwymadau hyn effeithio'n bennaf ar flynyddoedd ariannol yn y dyfodol, yn hytrach nag ar y cyfnod a gaiff ei gynnwys yng nghyllideb ddrafft 2012-2013. Fodd bynnag, oherwydd y swm cyfyngedig o arian sydd ar gael yng nghronfa wrth gefn y Llywodraeth ar gyfer 2012-2013, credwn y byddai'n ddoeth i'r Llywodraeth ganfod ar fyrder beth fydd goblygiadau cyllidebol llawn ei hymrwymadau presennol ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-2013 ac i'w cyhoeddi.

5. Asesiadau effaith

Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

128. Ym mis Chwefror 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru asesiad manwl o'r effaith ar gydraddoldeb ochr yn ochr â Chyllideb Derfynol 2011-2012.¹⁰⁹

129. Cyn cyhoeddi cyllideb ddrafft 2012-2013, argymhellodd amrywiaeth o randdeiliaid y dylid cynnal asesiad hefyd o effaith y gyllideb ar gydraddoldeb. Er enghraifft, argymhellodd Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru yr hyn a ganlyn:

“Welsh Government should analyse any proposed outcomes to determine whether there is a disproportionate impact on any of the equality groups. UCU Wales believes that it is necessary to consider whether the outputs are fairly distributed between the equality groups and how they equate to equality, as well as the objectives themselves. To ensure that this is achieved, UCU Wales calls on the Welsh Government to equality impact assess every future draft budget.”¹¹⁰

130. Yn yr un modd, cawsom ein hannog gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ystyried sut y mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn hyrwyddo cydraddoldeb neu'n dwysáu anghydraddoldeb. Dywedodd y Comisiwn hefyd:

“We would also encourage you to influence other scrutiny Committees to consider proposals before them within the context of the new equality duties and the use of equality impact assessments.”¹¹¹

131. Dywedodd Diverse Cymru hefyd fod angen cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ym mhob un o linellau'r gyllideb ac mewn perthynas â'r gyllideb gyffredinol,¹¹² a phwysleisiodd Chwarae Teg bwysigrwydd cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb i lywio'r broses o ddatblygu'r gyllideb derfynol, a'r ffaith y byddai hynny'n hyrwyddo dull o ddadansoddi cyllidebau ar sail rhyw i sicrhau cydraddoldeb rhywiol wrth ddatblygu polisi.¹¹³

¹⁰⁹ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2011-12: Asesu'r Effeithiau o ran Cydraddoldeb](#), Chwefror 2011

¹¹⁰ FIN(4) DB 04, P5

¹¹¹ FIN(4) DB 05

¹¹² FIN(4) DB 09

¹¹³ FIN(4) DB 10

132. Fodd bynnag, roedd naratif cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013¹¹⁴ yn nodi na chynhaliwyd asesiad manwl arall o'r effaith ar gydraddoldeb gan nad oedd y dyraniadau wedi newid rhyw lawer ers y llynedd. Mae'r ddogfen naratif yn nodi bod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gynnal lle mae'r cynlluniau wedi newid yn sylweddol.

133. Mynegodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol bryder ynghylch y ffaith na chynhaliwyd asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb. Dywedodd ei fod wedi nodi bod asesiad wedi'i gynnal yn 2010 ond nad oedd asesiad wedi'i gynnal ar gyfer cyllideb eleni. Dywedodd hefyd:

“The Committee feels that, given that new equality legislation has been introduced in the past year (including the Equality Act 2010 and the specific equality duties for Wales), and the reductions in budget allocations, it would be appropriate to undertake a new EIA.”¹¹⁵

134. Yn yr un modd, hysbyswyd Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ei fod yn pryderu am y ffaith na chynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r gyllideb ers cylch y gyllideb yn 2010, yn enwedig gan fod y prif ostyngiadau yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Gwledig. Dywedodd hefyd:

“We will be recommending to the Finance Committee that they urge Minister for Finance to ensure that equality impact assessments are carried out for all budgets in the 2012-13 budget round and that any changes made as a result of the assessment are shown in the figures provided to the relevant committees for scrutiny.”¹¹⁶

135. Yn ei hymateb i'r pryderon hyn, dywedodd y Gweinidog Cyllid:

“we delivered a detailed equality impact assessment last year... This time, we have an update on the assessment that reflects any changes.”¹¹⁷

136. Yn nogfen naratif y gyllideb ddrafft, dywedodd Llywodraeth Cymru:

“Welsh Government Departments undertook an initial screening on proposed changes to consider whether there may be a potential impact in terms of equality. Following the initial screening, if it was apparent that there was a significant impact on people with

¹¹⁴ Llywodraeth Cymru, [Dogfen Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13](#), Hydref 2011 (Atodiad C)

¹¹⁵ Llythyr at y Pwyllgor Cyllid gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 26 Hydref 2011

¹¹⁶ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 25 Hydref 2011

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 85

protected characteristics then a full Equality Impact Assessment (EIA) was required to better understand the equality impact of the proposed budget allocations and to meet legislative requirements.”¹¹⁸

137. Fodd bynnag, rydym yn pryderu ei bod yn bosibl na wnaeth y broses sgrinio gychwynnol hon ystyried goblygiadau llawn y newidiadau i'r gyllideb, mewn perthynas â chydaddoldeb. Nodwn, er enghraifft, y pryder a fynegwyd gan Cymorth i Fenywod Cymru:

“Protecting the domestic abuse budget revenue budget line within one department is welcomed, but the potentially positive impacts of this decision are likely to be negated by cuts to budgets in other departments.”¹¹⁹

138. Yn ogystal, nododd un o'n Haelodau yr hyn a ganlyn:

“It became apparent in the scrutiny in the Communities, Equality and Local Government Committee that you have cut the disabled people's facility grant next year by £6 million and a further £10 million the year after. However, this appears to have been missed out by your initial screening, and there appears to have been no full equality impact assessment of that particular decision.”¹²⁰

139. Nodwn fod y Gweinidog Cyllid wedi croesawu'r ffaith y cafodd ei hysbysu ynghylch y mater hwn, a phwysleisiodd y ffaith ei bod yn credu bod y broses o gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn un barhaus, yn hytrach nag yn broses sy'n dod i ben gyda'r gyllideb ddrafft. Fodd bynnag, ar sail sylwadau'r Gweinidog ynghylch y ffaith bod Llywodraethau eraill yn y DU yn edrych ar sut y gwnaethom ddatblygu ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb¹²¹, credwn y dylai Llywodraeth Cymru geisio gosod cynsail yn y maes hwn, yn lle bod risg y bydd yn dod yn hunanfodlon.

Y Gymraeg

140. Cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, mynegodd Mentrau Iaith Cymru bryder ynghylch y ffaith mai'r unig dro y cyfeirir at gyllid ar gyfer y Gymraeg yn y cynigion cyllidebol dangosol yw mewn perthynas â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, o dan y pennawd 'Gwella Busnes a Buddsoddi Adnoddau'.¹²²

141. Cawsom ein hysbysu mewn gohebiaeth gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol nad oedd y Gymraeg wedi'i chynnwys yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru.

¹¹⁸ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2012-2013: Cyllideb Twf a Swyddi, Hydref 2011, Para 4.2

¹¹⁹ FIN(4) DB 12

¹²⁰ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

¹²¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

¹²² FIN(4) DB 15, P1

Dyweddod y Pwyllgor fod y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg wedi dweud wrtho y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb ar y mater hwn, ac y byddai'n ysgrifennu at Weinidogion eraill Cymru mewn perthynas â chydraddoldeb y Gymraeg a Saesneg mewn gohebiaeth rhwng y Llywodraeth a'r cyhoedd yng Nghymru.¹²³

142. Credwn y dylid cynnal dadansoddiad o effaith y gyllideb ddrafft ar y Gymraeg ochr yn ochr ag asesiad ehangach o'r effaith ar gydraddoldeb. Rydym hefyd yn croesawu bwriad y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Asesiadau o'r effaith ar gynaliadwyedd

143. Mynegodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd bryder hefyd na chynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gynaliadwyedd mewn perthynas â'r gyllideb gyfan.¹²⁴ Argymhellodd y Pwyllgor ein bod yn annog y Gweinidog Cyllid i sicrhau y caiff asesiadau o'r effaith ar gynaliadwyedd eu cynnal mewn perthynas â'r holl gyllidebau yng nghylch cyllideb 2012-13 ac y dangosir unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r asesiadau yn y ffigurau a ddarperir i'r pwyllgorau perthnasol er mwyn iddynt graffu arnynt, ynghyd ag eglurhad o'r rheswm dros wneud newidiadau o'r fath.¹²⁵

144. Yn ei hymateb i'r pryderon hyn, ceisiodd y Gweinidog Cyllid ein sicrhau bod yr effaith ar ddatblygu cynaliadwy yn un o brif elfennau ei hasesiad o adnoddau. Dywedodd hefyd:

“It was something that I raised at every bilateral meeting with every Minister. There is not a single document that sets out this work, but it underpins everything that we do on evidence gathering for the impact of the draft budget on sustainability.”¹²⁶

145. Fodd bynnag, credwn fod lle i gynnal arfarniad pellach o effaith y gyllideb ddrafft ar gynaliadwyedd. Yn wir, nodwn fod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi cynghori'r Pwyllgor Menter a Busnes y byddai'n gwneud rhagor o waith yn y maes cyn y llunir y gyllideb derfynol. Dywedodd hefyd:

“We encourage you to carry out the promised work on a sustainability appraisal of your final budget, and also to consider funding conditions for Welsh Government support for businesses that promote green issues such as carbon emissions reductions and

¹²³ Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 26 Hydref 2011, P3

¹²⁴ Llythyr i'r Pwyllgor Cyllid gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 26 Hydref 2011

¹²⁵ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Llythyr i'r Pwyllgor Cyllid, 26 Hydref 2011

¹²⁶ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

energy efficiency, and which uphold corporate social responsibilities.”¹²⁷

146. Credwn y dylid ystyried effaith y gyllideb ddrafft ar ddatblygu cynaliadwy fel rhan o asesiad llawn o effaith cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gynaliadwyedd.

Rydym yn argymhell y dylid cynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r holl ddyraniadau arfaethedig o fewn cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru. Rydym yn rhagweld y cynhelir asesiad o effaith y gyllideb ar ddatblygiad y Gymraeg i gyd-fynd â hyn.

Rydym yn argymhell y dylid cynnal asesiad llawn o'r effaith ar gynaliadwyedd mewn perthynas â'r holl ddyraniadau arfaethedig o fewn cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru.

¹²⁷ Y Pwyllgor Menter a Busnes, Llythyr at y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, P1.

6. Effaith bosibl cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

147. Wrth lunio'r adroddiad hwn, rydym wedi ystyried canfyddiadau pump o bwyllgorau eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a graffodd ar oblygiadau cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cyfrifoldebau yn eu cylch gwaith. Dyma'r pwyllgorau o dan sylw:

- Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc;
- Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol;
- Y Pwyllgor Menter a Busnes;
- Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd; a
- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

148. Trafododd y Pwyllgorau hyn oblygiadau'r gyllideb ddrafft ar gyfer amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, nododd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yr hyn a ganlyn:

“both the Care Council for Wales and Older People’s Commissioner are expected to deliver approximately 3% efficiencies next year... we are mindful of the pressures that changing demographics and increased awareness of the office are likely to bring to the Older People’s Commissioner.”¹²⁸

149. Yn hytrach nag ailadrodd y drafodaeth fanwl a gynhaliodd y Pwyllgorau ar y portffolios penodol o fewn y gyllideb ddrafft, ceir copi o'r llythyrau a gafwyd gan y Pwyllgorau hyn yn Atodiad B.

150. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu'n arbennig ynghylch effaith bosibl y gyllideb arfaethedig ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Llywodraeth Leol, yr oedd bwriad iddynt gael ymhell dros ddwy ran o dair o'r arian yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, ac y byddent yn gyfrifol amdano ar y cyd.

Effaith bosibl cyllideb ddrafft 2012-2013 ar y GIG yng Nghymru

151. Cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, gwnaethom nodi bod nifer o sefydliadau wedi awgrymu meysydd o'r GIG y gellid rhoi blaenoriaeth iddynt o ran buddsoddi.¹²⁹

¹²⁸ Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 26 Hydref 2011.

¹²⁹ Er enghraifft, roedd Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint yn cefnogi buddsoddi mewn gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu, ac roedd Hosbisau Cymru yn argymhell rhoi mwy o

152. Yng nghyllideb ddrafft 2012-13, dyrannwyd cyllid ychwanegol o £239 miliwn i'r prif grŵp gwariant iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a phlant dros y tair blynedd o dan sylw (£83 miliwn yn 2012-13, £83 miliwn yn 2013-14 a £73 miliwn yn 2014-15), y nodir ei fod i'w ddefnyddio i sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yn gynaliadwy yn ariannol.

153. Yn ogystal, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant (Lesley Griffiths AC) bod £103 miliwn ychwanegol ar gael yn y flwyddyn ariannol bresennol (2011-12), i'w gymryd o gyfuniad o gronfeydd a'r gyllideb iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a phlant.¹³⁰

154. Yn ei dystiolaeth, croesawodd Conffederasiwn GIG Cymru y dyraniadau ychwanegol hyn, gan ddweud:

“would not presume to do anything other than welcome the fact that the Minister for Finance has outlined an additional £280 million for health services over the next three years. It will be well used, it is very welcome, and it will make a difference to patient care. We are also very pleased that the Minister for Health and Social Services is making available £100 million this financial year to help the NHS to meet the intense financial pressures that it faces.”¹³¹

155. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru y byddai'r cyllid ychwanegol hwn yn galluogi cynllunio ariannol gwell, ond nododd y byddai'n anodd cyflawni o fewn y gyllideb,¹³² oherwydd bod yn rhaid iddo wneud arbedion o £250 miliwn.¹³³ Roeddem yn pryderu a fyddai'r arian ychwanegol hwn yn ddigonol ar gyfer y GIG, a nododd un o'n Haelodau:

“as far as I am aware, in every previous financial year, in order to break even, money had to be found from the Government reserves to ensure that local health boards did not go over their budgets.”¹³⁴

156. Mynegodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol bryderon hefyd ynghylch a fyddai'r cyllid ar gyfer y GIG yn ddigonol. Er ei fod yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i ddarparu £83 miliwn yn ychwanegol yn 2012-13 i sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yn gynaliadwy yn ariannol ac i ddarparu arian ychwanegol yn y ddwy flynedd nesaf, dywedodd:

flaenoriaeth i ofal lliniarol. Nododd CCGC bryderon sefydliadau iechyd meddwl ynghylch pa mor ddigonol yw'r cyllid ar gyfer mynd i'r afael â materion iechyd meddwl. FIN(4) DB06, FIN(4) DB08, FIN(4) DB19.

¹³⁰ Llywodraeth Cymru, Datganiad newyddion, [£288 million extra for NHS in Wales](#), 5 Hydref 2011

¹³¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 20 Hydref 2011, Para 136

¹³² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 20 Hydref 2011, Para 222

¹³³ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 57

¹³⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 162

“we have reservations about whether the overall level and individual allocations of funding will be sufficient to address the funding difficulties which LHBs have already identified in the current year.”¹³⁵

157. Wrth ymateb i'r pryderon hyn, dywedodd y Gweinidog Cyllid wrthym fod gan y Byrddau Iechyd Lleol gyfundrefn arbed arian gadarn eisoes. Dywedodd hefyd:

“They delivered savings of more than £300 million last year. I was interested to hear the response last week from Dr Bailey, the chair of the British Medical Association’s GP committee, who said that they are going to have to work harder to deliver important changes in getting more patients supported in the community, recognising that new technologies can help and supporting the workforce in that way. The NHS Confederation has been supportive of the budget, and its director in Wales welcomed the extra funding.”¹³⁶

158. Yn yr un modd, amlinellodd Conffederasiwn GIG Cymru sut y gallai ailstrwythuro posibl o'r gwasanaeth iechyd sicrhau arbedion effeithlonrwydd, gan nodi:

“if you had a number of district hospitals—where we are now is a good example—within a fairly short travelling time of each other, and 10 services were provided in every one, then you might consider providing four of those services in one hospital, four in another and two in another. You might go to different district general hospitals for different services, but those services would still be provided... Some of it will depend on the longer-term changes that the NHS is allowed to make. If the NHS is allowed to make transformational changes, cost will be involved as well; we are not so unrealistic that we do not appreciate that. However, if the service is allowed, with proper consultation—I am not asking for a carte blanche or for you to say that everything that we do is fantastic—to make changes that we can demonstrate need to be made that are clinically more effective and will improve the quality of services, we have a good shot. This will be along with the efficiency savings, because we still have to make them. We are still looking at making real-term savings of at least 5 per cent year on year.”¹³⁷

159. Fodd bynnag, gofynnodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a oedd yr arbedion effeithlonrwydd hyn yn realistig, a dywedodd fod ganddo

¹³⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 26 Hydref 2011, P2

¹³⁶ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Paragraffau 58 a 206

¹³⁷ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 20 Hydref 2011, Para 169

amheuron o hyd yn benodol ynghylch gallu pob Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol. Dywedodd hefyd:

“We did not find it easy to share the Minister’s confidence that these levels of efficiency will be consistently achievable across the health sector in Wales. Moreover, we heard that a key mechanism for delivering the required efficiencies will be through ‘service transformation’. We are sure that further clarification will be needed, during the period of this budget, as to on how such service transformation will deliver efficiencies in practice.”¹³⁸

160. Nodwn y rhesymeg y tu ôl i benderfyniad Llywodraeth Cymru i roi arian ychwanegol i'r GIG yng Nghymru ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, yn hytrach nag yn ystod y flwyddyn.

161. Fodd bynnag, rydym yn parhau i bryderu y bydd y byrddau iechyd, erbyn mis Ebrill, o bosibl yn gobeithio cael eu hachub yn ariannol.¹³⁹ O gofio natur gyfyngedig cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru, credwn ei bod yn hollbwysig bod y byrddau iechyd lleol yn sicrhau'r arbedion cyffredinol a ragwelwyd gan y Gweinidog Cyllid. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn pryderu'n benodol ynghylch yr hyn a ddywedwyd wrthym gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, sef:

“Members were also concerned at the apparent lack of accountability at Local Health Board level, given the Minister’s belief that it was inappropriate for her to intervene in local decision making. The Committee believe it is essential to enhance clarity in this area to allow for more effective monitoring and scrutiny in the future. Members felt that the Minister was reliant upon Local Health Boards allocating expenditure appropriately to meet her policy commitments but was unable to demonstrate any clear mechanism for measuring outcomes. Members were also concerned that the Minister did not appear to have a contingency plan if Local Health Boards were unable to deliver these commitments.”¹⁴⁰

162. Rydym hefyd yn pryderu nad yw cynlluniau'r Byrddau Iechyd Lleol wedi'u cyhoeddi o hyd. Dywedodd un o'n Haelodau:

“It would be helpful once we see the plans because, at least then, we will have something to judge. The fact that the plans are constantly

¹³⁸ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 26 Hydref 2011, P2

¹³⁹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

¹⁴⁰ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 26 Hydref 2011, P2

evolving and are kept secret means that everyone will be suspicious.”¹⁴¹

163. O gofio'r ffydd a roddwyd yn y Byrddau Iechyd Lleol, a'r arian cyhoeddus a fuddsoddwyd ynddynt, rydym yn annog y Gweinidog i sicrhau bod eu harian yn cael ei fonitro'n ofalus iawn drwy'r flwyddyn, bod unrhyw gamau unioni'n cael eu cymryd yn gynnar, a bod dull clir o'u dwyn i gyfrif am eu gwariant dros y blynyddoedd ariannol i ddod. Er ein bod yn nodi hyder Conffederasiwn y GIG y gellir sicrhau'r arbedion hyn, rhannwn bryderon difrifol y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch a fydd lefel gyffredinol yr arian a'r dyraniadau unigol yn ddigonol i fynd i'r afael â'r trafferthion ariannol y mae'r Byrddau eisoes wedi'u nodi yn y flwyddyn bresennol ac i wneud yr arbedion y mae angen iddynt eu gwneud ar sail eu dyraniad ariannol.

Effaith bosibl cyllideb ddrafft 2012-2013 ar lywodraeth leol yng Nghymru

164. Mae'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau yn rhoi cyfrif am tua 35 y cant o'r cyfanswm dyraniad terfyn gwariant adrannol ym mhob blwyddyn o gyfnod y gyllideb (rhwng 2011-12 a 2014-15). Yn arbennig, nodwyd mai £5.1 biliwn yw'r terfyn gwariant a ddyranwyd i'r Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau yn 2012-13, sy'n cynrychioli 34.7 y cant o derfyn gwariant adrannol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn ostyngiad o £10.8 miliwn, neu 0.2 y cant, o'i gymharu â 2011-12. Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o 2.6 y cant. Nodwyd hefyd mai 261.6 miliwn yw'r terfyn gwariant cyfalaf a ddyrannwyd i'r Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau yn 2012-13, sy'n cynrychioli gostyngiad o £19.5 miliwn, neu 6.9 y cant, o'i gymharu â 2011-12. Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o 9.2 y cant.

Arbedion effeithlonrwydd y mae'n rhaid i lywodraeth leol eu gwneud

165. Cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, disgrifiodd CLILC yr arbedion ac enillion effeithlonrwydd a ganfuwyd gan awdurdodau lleol ac yr oedd gofyn iddynt eu gwneud eisoes fel rhai y mae angen eu gwneud er mwyn cyflwyno cyllideb gytbwys. Dywedodd hefyd:

“So, those efficiency savings comprise a range of different things: some are procurement savings, business process re-engineering—introducing lean systems and improving their processes—voluntary redundancy schemes, changes to terms and conditions, and improvements in asset management. So, they [local authorities] have looked at a whole range of things and when they put forward their budget they also put forward saving plans to their councils for

¹⁴¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2011

approval. Those plans are now being implemented, and the indications are that authorities will come to the end of the year with a balanced budget position.”¹⁴²

166. Fodd bynnag, roedd CLILC hefyd yn cydnabod bod gofyn i awdurdodau lleol sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Yn hytrach na gofyn am gynnydd sylweddol yn yr arian ar gyfer llywodraeth leol, roedd yn credu y byddai ymrwymiad i'r dyraniadau refeniw dangosol yn y gyllideb yn gwella gallu llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus ehangach i gynllunio a sicrhau gostyngiadau mewn costau mewn ffordd strategol sydd wedi'i chynllunio.¹⁴³

167. Cytunodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau fod gofyn i awdurdodau wneud arbedion, a nododd yr hyn a ganlyn:

“the changes to services that I have requested from the entire public sector, not just local government, are to do with delivering a better service, cheaper, through collaboration or individually. We are seeing signs of that already happening. I assume that this committee has questioned, or will be questioning, Leighton Andrews. He is working on a school-improvement programme where cost-benefits have already been seen, just by doing things differently. It is a better service and we are savings millions of pounds... We included the opportunity for remote attendance at committees in the Local Government (Wales) Measure 2011, so there is opportunity to make savings with travel and so on. We also have an opportunity for savings with regard to collective responsibility.”¹⁴⁴


168. Yn benodol, gwnaethom nodi y defnyddwyd dull newydd o fwrw ati i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn y sector cyhoeddus yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13. Y diben cyffredinol oedd i Lywodraeth Cymru roi arweiniad drwy symleiddio'r trefniadau partneriaeth, sicrhau eglurder ynghylch cydweithio a sefydlu fframwaith ar gyfer arwain a llywodraethu ar y cyd yn genedlaethol rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol a chyflenwyr gwasanaethau cyhoeddus allweddol eraill.

169. Un agwedd ar hyn oedd bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig safoni unrhyw gydweithio gan ddefnyddio ôl-troed cyffredin. Bwriad hyn fyddai galluogi pobl i gydweithio ar draws llywodraeth leol, gwasanaethau iechyd a'r heddlu, gan leihau'r cymhlethdod a darparu fframwaith clir ar gyfer cydweithio wrth i adolygiad Simpson a'r diwygiadau mawr eraill gael eu gweithredu. I alluogi diwygio o'r fath, rhannwyd Cymru yn chwe ardal (a ddangosir yn y map isod).

¹⁴² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2011, Para 108

¹⁴³ FIN(4)-03-11 (Papur 2)

¹⁴⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 20 Hydref 2011, Paragraffau 6 a 29



Ffynhonnell: Dogfen naratif Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13

170. Mewn perthynas â'r chwe ardal rhanbarthol hyn, dywedodd CLILC:

“the only thing that we are concerned about is to make sure that, when we put in all of these regional arrangements, we do not have a democratic deficit. The danger is that everything goes to a regional level, but where is the scrutiny and the accountability, and does the public understand what we are doing?”¹⁴⁵

171. Yn ei ymateb i'r pryder hwn, cytunodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau bod atebolrwydd democrataidd yn bwysig iawn. Dywedodd hefyd:

“I have said in the Chamber, often, that I genuinely believe that 22 authorities can work in terms of service delivery, but they have to operate in a different way... Operationally, the Local Government (Wales) Measure 2011 provides provision for joint scrutiny with other authorities, so more than one authority can scrutinise. This is already happening in some areas—I have examples in Cardiff, Monmouth, Newport and the Vale of Glamorgan on the waste partnership. It works well; all the councillors—over 50 of them, I think—come to a collective agreement on that service provision for that area. So, it does work, but it is new, and we have to support it.”¹⁴⁶

¹⁴⁵ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2011, Para 234

¹⁴⁶ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Paragraffau 23-24

172. Nododd CLILC nifer o heriau o ran cydweithio ranbarthol hefyd, gan gynnwys costau cychwynnol galluogi cydweithio o'r fath¹⁴⁷ a'r buddsoddiadau presennol mewn systemau TG. Dywedodd hefyd:

“when we did work on the big south-east Wales project, which did not come off, part of the problem with that was that a lot of authorities had already invested in brand new payroll systems when we started talking. That is not their fault; we started to talk about it after they had invested. The problem is that, once you have done that, you want to cash in on your investment and so it would be a problem to have to go to another IT system because it needs to be a shared IT system. So, getting the various IT systems to speak together is a big issue for all of us.”¹⁴⁸

173. Cydnabu'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau y pryderon hyn yn ei ymateb, a dywedodd:

“It will take a little longer sometimes to make those changes. Notwithstanding, there are some elements that need pump-priming in terms of delivery.”¹⁴⁹

174. Croesawn yr ymdrechion a wnaed gan y Gweinidog ac awdurdodau lleol i wneud arbedion effeithlonrwydd, gan ddefnyddio dull o gydweithio, lle bo hynny'n bosibl. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd angen newid diwylliant awdurdodau lleol er mwyn mabwysiadu dull o'r fath, ac felly efallai y bydd angen defnyddio dull hirdymor.

Hynt yr arian a roddir gan lywodraeth leol i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill

175. Cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, mynegodd nifer o randdeiliaid bryder y gellid bod amharodrwydd ymysg awdurdodau lleol i drosglwyddo arian i sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, oherwydd bod y cyllidebau yn dynn. Er enghraifft, nododd CLILC yr hyn a ganlyn:

“a critical issue at the moment is whether more of the identified moneys that go out to local government and then to health boards will be retained by those bodies rather than going out to the third sector... It is a challenge for our sector to get that message through to local government and to ask it, if it is thinking of changing the

¹⁴⁷ FIN(4) 3-11, Papur briffio gan CLILC, [Tystiolaeth ysgrifenedig ar Gynnig Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13](#), Para 47, 28 Medi 2011

¹⁴⁸ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2011

¹⁴⁹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 20 Hydref 2011, Para 49

route of the money, to think about all of the things that might then be lost.”¹⁵⁰

176. Roedd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cytuno â hynny. Dywedodd:

“Where there are financial pressures, it tends to be the third sector that drops off the edge. Often, the service need does not go away, it is just transferred somewhere else. So, you do not solve the problem, you just move it elsewhere. So the third sector has an important part to play. It has a seat on the public service leadership group, and is taking part in the public service transformation agenda. I see it as being a fundamental part of transformation in terms of delivery for the future... I have written to every local authority insisting that, prior to legislation, they seek to arrange a compact with the third sector. Some authorities do this very well, but some not so well.”¹⁵¹

177. Rydym yn croesawu ac yn cefnogi'r camau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd ar y mater hwn. Rydym hefyd yn ymwybodol bod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi nodi y gallai'r gostyngiad mewn cyllid olygu y bydd angen i awdurdodau lleol edrych i'r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau. Dywedodd hefyd:

“The Committee is concerned that this will place an additional burden on the voluntary sector when budgets in the sector are also being cut. We will keep this under review.”¹⁵²

178. Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am iddo nodi ei fwriad i adolygu'r mater hwn. Credwn fod y sector gwirfoddol yn chwarae rôl hanfodol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, a nodwn waith ymchwil CGGC sy'n nodi y gall y sector gwirfoddol gynnig gwerth arbennig o uchel am arian cyhoeddus gan fod y sector wedi sicrhau dros £1 yn ychwanegol o ffynonellau eraill am bob £1 y mae'n ei gwario.¹⁵³

179. Mynegodd Llywodraethwyr Cymru bryder tebyg mewn perthynas â chyfran yr arian a drosglwyddir i ysgolion. Nododd:

“there needs to be a default mechanism in place to ensure that this funding is passed on to the schools by Local Authorities. Local Authorities generally have a good record in this respect, but given

¹⁵⁰ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 20 Hydref 2011, Para 135

¹⁵¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 20 Hydref 2011, Paragraffau 82 a 84

¹⁵² Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 25 Hydref 2011, P2

¹⁵³ FIN(4)-5-11 Paper 2, Para 18

the difficult financial circumstances, there may be potential for channelling of some of the additional funding to other services.”¹⁵⁴

180. Fodd bynnag, roedd CLILC yn dadlau:

“we have given a commitment that 80 per cent of school budgets will be delegated to schools over the next period. The target eventually goes up to 85 per cent over time. On the surface, that sounds right, and we have pledged to do that. We want to do that. However, some schools do not want that. Many schools do not want to be picking up budgets for special educational needs, school transport or a range of other factors. We are currently discussing with the Minister for education what we delegate and what we do not. I hear people saying that 100 per cent of the budget should be delegated to schools, but that is illegal. The education authorities have to provide certain functions.”¹⁵⁵

181. Croesawn ymrwymiad CLILC i sicrhau bod 80 y cant o gyllidebau ysgolion yn cael eu dyrannu i ysgolion yn ystod y cyfnod nesaf.

182. Nodwn hefyd ddatganiad CLIC:

“it is ultimately a question of trust, of whether we will spend the money in the way that Ministers want it spent.”¹⁵⁶

Gan fod y ffydd hon yn cael ei hymestyn i awdurdodau lleol ar ffurf arian cyhoeddus, credwn ei bod yn hanfodol bod awdurdodau lleol yn gallu dangos beth a gyflenwir a’u bod yn cael eu dwyn i gyfrif.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaeth â’r Byrddau Iechyd Lleol er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau gwasanaeth yn cael eu cwblhau a’u cyhoeddi cyn gynted â phosibl, a bod y Gweinidog yna’n cyflwyno adroddiad ynghylch a fydd yr arian sydd ar gael i Fyrddau Iechyd Lleol yn ddigonol i roi cynlluniau o’r fath ar waith.

¹⁵⁴ FIN(4) DB 02 Para 4

¹⁵⁵ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2011, Para 153

¹⁵⁶ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2011, Para 151

7. Yr angen i gydweithio

183. Mewn ymateb i'r hinsawdd economaidd bresennol, awgrymodd amrywiaeth o randdeiliaid y gellid gwneud rhagor o ddefnydd o gydweithio a gweithio cydgysylltiedig i sicrhau y ceir y gwerth mwyaf am arian. Roeddent yn awgrymu y gellid cael rhagor o weithio cydgysylltiedig:

- rhwng adrannau Llywodraeth Cymru
- rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill
- a rhwng y darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eu hunain.

Gweithio cydgysylltiedig o fewn Llywodraeth Cymru

184. Argymhellodd nifer o randdeiliaid bod angen rhoi mwy o bwyslais ar gael dull cydgysylltiedig o weithio o fewn Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, dywedodd Tai Cymunedol Cymru fod cydgysylltu gwaith adrannau Llywodraeth Cymru yn hanfodol er mwyn gwneud arbedion a sicrhau gwerth am arian.¹⁵⁷ Yn yr un modd, mynegodd Cymorth i Fenywod Cymru y pryder a ganlyn:

“the lack of strategic and joined-up approach to tackling violence against women across all relevant departments and portfolio areas is problematic and does not lend itself to effective collaborative working.”¹⁵⁸

185. Dywedodd TPAS Cymru mai'r ateb i'r her hon oedd y dylai Llywodraeth Cymru weithredu dull Llywodraeth gyfan ar gyfer datblygu polisïau, mentrau a strategaethau. Dywedodd hefyd:

“Currently we are concerned that new policies, initiatives and strategies are only circulated between departments once the new development has been fully planned. We feel that this is too late, and that the Welsh Government should have mechanisms in place to coordinate the involvement of other departments during the initial ideas stage, so that overlap of new initiatives and developments is picked up. This can lead to synergies between departments, and will eliminate duplication across the Welsh Government and prevent money and resources being wasted.”¹⁵⁹

186. Credwn y bydd datblygu canlyniadau eglur a dulliau eglur o fonitro'r canlyniadau hynny yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru yn fawr i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. I'r diben hwn, croesawn hefyd y ffaith bod Llywodraeth

¹⁵⁷ FIN(4) DB 03

¹⁵⁸ FIN(4) DB 12

¹⁵⁹ FIN(4) DB 11

Cymru yn datblygu Uned Gyflenwi. Credwn y dylai'r uned chwarae rôl arwyddocaol yn y broses o fonitro sut y caiff y canlyniadau eu sicrhau, ac o ran galluogi Llywodraeth Cymru i gymryd camau os oes perygl na fydd yr amcanion yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu bod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi nodi na roddwyd unrhyw dystiolaeth i'r Pwyllgor ar rôl Uned Gyflenwi Llywodraeth Cymru yn y broses o fonitro effeithiolrwydd dyraniadau'r gyllideb mewn meysydd polisi penodol.¹⁶⁰

187. Credwn y gallai Llywodraeth Cymru fod yn fwy eglur ynghylch rôl ei Huned Gyflenwi a'r swyddogaeth y mae'n ei rhagweld ar ei chyfer.

Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill

188. Awgrymodd y rhanddeiliaid hefyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i weithio'n fwy effeithiol gyda darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill. Er enghraifft, awgrymodd Chwarae Teg yr hyn a ganlyn:

“Welsh Government might consider further collaboration with the third sector, using WCVA forums to explore ideas.”¹⁶¹

189. Yn benodol, galwodd CLLC am gael dull mwy cydgysylltiedig o ymgysylltu â llywodraeth leol, ac awgrymodd fod y drafodaeth â llywodraeth leol wedi'i chyfyngu ar hyn o bryd. Dywedodd:

“there is an opportunity for us to work co-operatively with the Welsh Government to look at how we can plug gaps in capital funding. I would welcome some sort of dialogue on that... we need to have a dialogue between local government and Welsh Ministers to see where that balance should be drawn... we had been lobbying the Welsh Government for an enterprise zone, but I first heard that we were going to get an enterprise zone when somebody telephoned to tell me that the Minister had just announced it live on the regional news that evening.”¹⁶²

190. Amlinellodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau y camau y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn eu cymryd i alluogi gweithio cydgysylltiedig. Dywedodd hefyd:

“You will be aware of the outcome agreements with local authorities and of the audit inspection regime of the Wales Audit Office and that, following some of its more difficult reports on some local

¹⁶⁰ Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 26 Hydref 2011, P1.

¹⁶¹ FIN(4) DB 10

¹⁶² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2011, Paragraffau 87, 93 a 231

authorities, we have had to intervene in some areas. You will be aware of those interventions, which were because of authorities' failure to deliver services. On the toolbox, this is about driving that agenda forward, and most authorities are on board with that agenda; however, should there be some reluctance to change, for whatever reason, that is wrong and there is evidence that it is wrong, there are things that I can do through the Local Government (Wales) Measure 2011 to cajole or force local authorities to reconsider the issue."¹⁶³

191. Credwn ei bod yn werthfawr bod Llywodraeth Cymru yn ceisio ymgysylltu ag awdurdodau lleol mewn modd cydgysylltiedig a chadarnhaol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, o gofio'r ffydd a roddir yn yr awdurdodau lleol a'r arian cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdano, credwn hefyd ei bod yn rhesymol i Lywodraeth Cymru gael canlyniadau sydd wedi'u diffinio a'u datblygu y gall awdurdodau lleol weithio tuag at eu cyflawni.

Hwyluso cydweithio rhwng darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill

192. Yn olaf, cydnabu amrywiaeth o randdeiliaid y ffaith bod angen i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill gydweithio mwy, gan rannu adnoddau lle bo hynny'n addas, er mwyn darparu'r gwasanaethau cyhoeddus gorau posibl. Roedd Conffederasiwn GIG Cymru, er enghraifft, yn cydnabod bod ganddo rôl i'w chwarae mewn perthynas â chydgyssylltu gwasanaethau. Dywedodd hefyd:

"The NHS is very mindful that much of what it does, particularly with regard to older people and in the context of an increasing elderly population, cuts across professional boundaries and any boundaries that we might have put in place at any time. We recognise that there has to be work with social services, for example, and there are already some outstanding pockets of excellent practice. It is a case again of ensuring that we share that, spread those messages and talk to the right people and join services up."¹⁶⁴

193. Yn yr un modd, cydnabu CGGC:

"The third sector infrastructure recognises the importance of collaboration and merger, and encourages its members to consider joint working so that they are in a position to respond to a changing environment and make informed decisions about whether collaborating or merging is in the best interests of their service users."¹⁶⁵

¹⁶³ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 20 Hydref 2011, Para 53

¹⁶⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 20 Hydref 2011, Para 186

¹⁶⁵ FIN(4) DB 08

194. Awgrymodd Cartrefi i Bawb Cymru y byddai'n werthfawr dod â sefydliadau arbenigol ynghyd i ateb anghenion amrywiol, ac y byddai rhannu adnoddau yn annog cydweithio llawer mwy effeithiol i sicrhau canlyniadau a rennir.¹⁶⁶

195. Cafwyd nifer o awgrymiadau hefyd mewn perthynas â chael Llywodraeth Cymru i hwyluso arferion o'r fath. Er enghraifft, dywedodd Cymorth Cymru:

“many in the housing sector have argued for the need for specific grant funding that can only be accessed by joint bids across statutory and third sector organisations. We feel this “carrot” has considerable merit and would suggest that this would help support more collaborative working.”¹⁶⁷

196. Awgrymodd CGGC hefyd y gallai'r arfer o gynnal proses dendro gystadleuol ar gyfer contractau danseilio'r ymdrechion i gydweithio. Roedd ganddi'r rhybudd hwn:

“there is a definite trend towards more competitive procurement, particularly in local government. That is a real concern, because of what it does to the sector. We would all prefer to be in collaboration rather than competition, and having competitive tendering as the main route for procurement undermines that significantly, as it pits parts of the sector against other parts, when we want to work together more closely. It also drives a wedge between local government and third sector organisations. If one organisation gets the money that other organisations are competing for, that will have a knock-on effect on their relationships. We believe that we are all in this together and we want to play our part in getting Wales through the difficult times that we are in and that we are anticipating. However, that kind of environment makes it difficult to do that.”¹⁶⁸

197. Roedd CGGC yn argymhell yr hoffai i'r Llywodraeth wyrdroi'r duedd tuag at gaffael pan nad yw'n ofyniad cyfreithiol, gan ddefnyddio mwy o grantiau a chytundebau lefel gwasanaeth, wedi'u trefnu mewn ffyrdd i sicrhau gwerth am arian a'r gwerth gorau.¹⁶⁹

198. Gwnaethom ofyn i CGGC am ragor o wybodaeth am y duedd hon, a darparodd y wybodaeth a ganlyn:

¹⁶⁶ FIN(4) DB 16

¹⁶⁷ FIN(4) DB 20

¹⁶⁸ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 12 Hydref 2011, Para 138

¹⁶⁹ FIN(4) DB 08, Para 32

“Data gathered by WCVA’s Research Team during 2006 and 2009¹⁷⁰ identified the following trends in the income of the Welsh third sector:

- Grant income has fallen from £428m in 2006 to £291m in 2009
- Income from contracts has increased considerably, from £167m in 2006 to £378m in 2009.”¹⁷¹

199. Rydym yn ymwybodol bod dadl gref o blaid archwilio pob dull a ddefnyddir i roi arian cyhoeddus i gyrff allanol yn drylwyr yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Ar yr un pryd, rydym yn ymwybodol y gallai defnyddio grantiau, yn hytrach na chontractau wedi’u tendro ar sail gystadleuol, gynnig gwerth gwell am arian cyhoeddus o bryd i’w gilydd, ac y gallai hynny arwain at ddefnyddio dull mwy cydgysylltiedig o weithio.

200. Yn y cyd-destun hwn, croesawn sylwadau’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, sef:

“The third sector is a critical part of service delivery. That is why we are looking to legislate in order to seek a compact between local government and third sector organisations.”¹⁷²

201. Cefnogwn ymdrechion Llywodraethau Cymru i alluogi’r defnydd o ddull mwy cydgysylltiedig o weithio rhwng llywodraeth lleol a’r sector gwirfoddol.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro rôl ei huned gyflenwi o ran sicrhau’r canlyniadau y bwriedir i’r gyllideb ddrafft eu cyflawni. Rhagwelwn y byddai hyn yn cynnwys egluro rôl yr uned gyflenwi o ran monitro sut y caiff y canlyniadau eu cyflawni, a galluogi’r camau priodol i gael eu cymryd pan fo perygl na fydd y canlyniadau’n cael eu cyflawni.

¹⁷⁰ Adolygiadau Cyllido CGGC

¹⁷¹ Ymateb CGGC i’r cam gweithredu, 12 Hydref 2011

¹⁷² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 20 Hydref 2011, Para 82

Casgliadau

202. Rydym wedi archwilio cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru (ynghyd â Phwyllgorau eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru), gan gasglu tystiolaeth arni gan amrywiaeth o randdeiliaid. Nid ydym wedi argymhell unrhyw ddiwygiadau i'r adnoddau y nodir eu manylion yn y gyllideb ddrafft, er ein bod wedi mynegi pryderon difrifol ynghylch digonolrwydd cyfanswm yr arian ar gyfer GIG Cymru.

203. Mae Cymru'n wynebu cyfnod heriol parhaus wrth iddi ymdopi â lefelau llai o arian cyhoeddus, a mwy o bwysau o bosibl ar wasanaethau cyhoeddus. Felly, mae mor bwysig ag erioed y gwneir pob ymdrech i sicrhau y ceir y gwerth mwyaf posibl o bob punt a gaiff ei gwario.

204. I'r diben hwn, croesawn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni canlyniadau, ac i ddatblygu cyllideb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw'r ymrwymiad hwn i gael canlyniadau clir, tryloyw y gellir eu mesur wedi'i fodloni ar draws adrannau Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Gan gydnabod mai hwn yw cyllideb ddrafft gyntaf Llywodraeth newydd Cymru, edrychwn ymlaen i weld mwy o eglurder yn y dyfodol.

205. Croesawn hefyd ymdrechion Llywodraeth Cymru i sicrhau tryloywder yn y broses o gynllunio'r gyllideb a'i dyraniadau arfaethedig. Gobeithiwn y bydd y Gweinidog yn ystyried pryderon Pwyllgorau Cynulliad Cymru a'u argymhellion ar lefel y manylion yn y gyllideb a chysondeb y wybodaeth a gyflwynwyd.

206. Er mwyn cael proses graffu orffenedig, tua diwedd blwyddyn ariannol 2012-2013, bwriadwn archwilio pa mor ddigonol yw'r gyllideb ddrafft hon o ran cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ynddi.

207. Yn olaf, croesawn ymagwedd gadarnhaol nifer o'r darparwyr gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â bodloni eu hamcanion er gwaethaf y cyfyngiadau ar adnoddau. Credwn fod angen ategu'r ymagwedd hon gyda chanlyniadau, a rhagwelwn y bydd y cyrff y mae'r cyhoedd yn ymddiried ynddynt ac sy'n gyfrifol am arian cyhoeddus, fel y GIG ac awdurdodau lleol, yn cyhoeddi eu cynlluniau a'u cynnydd mewn perthynas â bodloni'r amcanion yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Atodiad 1: Gohebiaeth a gafwyd gan Bwyllgorau eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Annex A

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Alun Davies AC
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a
Rhaglenni Ewropeaidd
Llywodraeth Cymru

25 Hydref 2011

Annwyl Alun

Hoffem ddiolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 13 Hydref fel rhan o'r broses o graffu ar Gynigion Cyllideb Drafft Llywodraeth Cymru 2012-13.

Hoffai'r Pwyllgor gynnig nifer o sylwadau ichi eu hystyried. Rydym hefyd yn ysgrifennu at y Gweinidog Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Bydd copi o'r ddau lythyr yn cael eu hanfon at y Pwyllgor Cyllid i ddarparu gwybodaeth iddynt ar gyfer y broses o graffu'n strategol ac yn eang ar y Gyllideb Ddrafft, a chânt eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Blaenoriaethau'r gyllideb

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, trafodwyd â chi sut y byddai'r gostyngiad o £1.5 miliwn yn eich cyllideb yn effeithio ar gynlluniau gwariant yn y meysydd polisi rydych wedi'u blaenoriaethu. Roedd eich cyllideb, meddech chi, wedi'i seilio ar Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ac felly roedd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a bennwyd gan y rhaglen honno. Roeddech hefyd yn ffyddiog y byddwch yn medru cyflawni holl ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym yn dal yn pryderu am wir effaith y gostyngiad yn y gyllideb, yn enwedig o ran rhoi'r Cynllun Datblygu Gwledig ar waith o gofio ichi ddweud: "Ni fedraf honni na chaiff unrhyw effaith o gwbl".

1. Rydym yn eich annog i sicrhau bod digon o arian yn cael ei ddyrannu i'r meysydd y nodwyd yn eich papur rydych wedi'u blaenoriaethu, er mwyn cyflawni'r holl ymrwymadau a nodwyd.
2. Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn cyhoeddi rhag blaen eich cynlluniau i reoli unrhyw effeithiau negyddol a ddaw i'r amlwg yn y meysydd rydych wedi'u blaenoriaethu, gan eu hysbysebu'n eang:
 - yn ystod y broses gyllidebu bresennol;
 - wedi i'r flwyddyn ariannol berthnasol ddechrau

Marchnata a hyrwyddo bwyd o Gymru

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, trafodwyd â chi effaith y gostyngiad o £275,000 yng nghyllideb AGA i ddatblygu a marchnata sector bwyd a diod Cymru. Rydym yn croesawu'r ffaith eich bod am adolygu'r sector ac am sefydlu panel sgiliau yng nghyswllt y sector a'ch bod yn bwriadu adolygu'r strategaeth fwyd. Rydym yn dal yn pryderu, fodd bynnag, am effaith y gostyngiad yn yr arian sydd ar gael ar gyfer y maes hwn.

3. Rydym yn eich annog i gynhyrchu'r strategaeth newydd cyn gynted â phosibl i sicrhau nad yw'r gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer y strategaeth bresennol yn cael effaith negyddol ar y sector.
4. Er ein bod yn credu ei bod yn bwysig eich bod yn sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer y strategaeth newydd, rydym yn argymhell nad yr arian sydd ar gael ar hyn o bryd yw'r unig ffactor sy'n ei rheoli.

Datblygu, rheoli a gorfodi pysgodfeydd a dyframaethu

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, trafodwyd â chi effaith y gostyngiad mewn termau real yn y llinellau gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer datblygu, rheoli a gorfodi Pysgodfeydd a Dyframaethu Cymru, ar eich gallu i gyflawni'ch ymrwymadau yng nghyswllt deddfwriaeth pysgodfeydd. Rydym yn croesawu'r ffaith eich bod yn ein sicrhau nad ydych yn rhagweld y bydd y gostyngiadau hyn yn y gyllideb yn effeithio ar eich gallu i gyflawni ymrwymadau Llywodraeth Cymru o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd a'r Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. Fodd bynnag, o ystyried y diwygiadau a'r newidiadau sydd ar y gweill yn y maes polisi hwn, rydym yn dal yn pryderu am effeithiau hirdymor y gostyngiadau hyn.

5. Rydym yn eich annog i barhau i adolygu'n ofalus y gyllideb a ddyrennir i reoli ac i orfodi pysgodfeydd yng Nghymru er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu cyflawni unrhyw rwymedigaethau a roddir arni.

Asesu'r effaith ar gynaliadwyedd

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, gofynnwyd ichi a gwblhawyd asesiad o'r effaith ar gynaliadwyedd yng nghyswllt eich cyllideb. Rydych wedi rhoi copi o'r rhannau hynny o Adroddiad Gwerthuso Tymor Canolig Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013 sy'n ymwneud â Chynaliadwyedd. Rydym yn pryderu, fodd bynnag, na chynhaliwyd adolygiad o'r effaith ar gynaliadwyedd yng nghyswllt y gyllideb ei hun, yn enwedig gan mai ym maes y Cynllun Datblygu Gwledig y mae'r prif ostyngiadau i'w gweld.

6. Rydym yn argymhell bod y Pwyllgor Cyllid yn annog y Gweinidog Cyllid i sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar gynaliadwyedd yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl gyllidebau yng nghylch cyllideb 2012-13 a bod unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r asesiad yn cael eu dangos yn y ffigurau a roddir i'r pwyllgorau perthnasol yn ystod eu gwaith craffu.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, gofynnwyd ichi a gwblhawyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yng nghyswllt eich cyllideb. Rydych wedi rhoi copi o'r rhannau hynny o Adroddiad Gwerthuso Tymor Canolig Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013 sy'n ymwneud â Chydraddoldeb. Rydym yn pryderu, fodd bynnag, na chynhaliwyd adolygiad o'r effaith ar gydraddoldeb yng nghyswllt y gyllideb ei hun, yn enwedig gan mai ym maes y Cynllun Datblygu Gwledig y mae'r prif ostyngiadau i'w gweld.

7. Rydym yn argymhell bod y Pwyllgor Cyllid yn annog y Gweinidog Cyllid i sicrhau bod asesiadau o'r effaith 02920 82 1890ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl gyllidebau yng nghylch cyllideb 2012-13 a bod unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r asesiad yn cael eu dangos yn y ffigurau a roddir i'r pwyllgorau perthnasol yn ystod eu gwaith craffu.

Gwybodaeth ychwanegol

Rydych wedi cytuno i roi'r wybodaeth a ganlyn inni:

- Copi o asesiad o'r effaith ar gynaliadwyedd a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyllideb ddrafft 2012-13 a manylion unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i hynny;
- Rhagor o wybodaeth am y cynllun newydd-ddyfodiaid ;
- Y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y strategaeth fwyd newydd;
- Gwybodaeth ychwanegol am yr adolygiad o waith gorfodi deddfwriaeth morol a physgodfeydd.
- Newidiadau yng nghyllideb Echel 2 o ganlyniad i adolygiad Rees Roberts.

Diolch am gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i waith, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn y llythyr hwn cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

Dafydd Elis Thomas
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

c.c. Jocelyn Davies AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

John Griffiths AC
Y Gweinidog Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Llywodraeth Cymru

25 Hydref 2011

Annwyl John

Hoffem ddiolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 13 Hydref fel rhan o'r broses o graffu ar Gynigion Cyllideb Drafft Llywodraeth Cymru 2012-13.

Hoffai'r Pwyllgor gynnig nifer o sylwadau ichi eu hystyried. Bydd copi o'r ddau lythyr yn cael eu hanfon at y Pwyllgor Cyllid i ddarparu gwybodaeth iddynt ar gyfer y broses gyffredinol o graffu'n strategol ar y Gyllideb Ddrafft, a chânt eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Blaenoriaethau'r gyllideb

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, trafodwyd â chi sut y byddai'r gostyngiad o £2.9 miliwn yn eich cyllideb rhwng 2011-12 a 2012-13 yn effeithio ar eich gallu i roi Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar waith. Rydym yn croesawu'r ffaith eich bod wedi'n sicrhau bod perthynas glir rhwng y Rhaglen Lywodraethu, eich blaenoriaethau a'r gyllideb ddrafft.

TB Buchol

Trafodwyd y dyraniad yn y gyllideb i dalu iawndal ar gyfer TB Buchol. Rydym yn croesawu'r ffaith eich bod wedi egluro bod y ffigurau presennol yn seiliedig ar y taliadau a wnaed y llynedd. Rydym yn pryderu, fodd bynnag, oherwydd natur gylchol yr achosion o TB, na fydd digon o arian ar gael os bydd y taliadau iawndal hyn yn cynyddu.

- 1. Rydym yn argymhell yn gryf bod taliadau iawndal ar gyfer TB yn cael eu monitro'n ofalus i sicrhau bod dyraniadau dilynol yn adlewyrchu'r newidiadau yn y taliadau'n ddigonol o'r naill flwyddyn i'r llall.**

Cynllunio

Trafodwyd y gostyngiad yn y llinell wariant cynllunio a goblygiadau hynny o ran cynyddu gallu'r awdurdodau cynllunio lleol i ddelio â phrosiectau seilwaith cymhleth. Rydym yn pryderu nad oes digon o adnoddau ar gael i awdurdodau cynllunio lleol i'w helpu i fanteisio ar gyngor a chymorth arbenigol er mwyn deilio'n effeithiol â phrosiectau ynni mawr. Byddwn yn adrodd ymhellach ar y mater hwn ar ddiwedd yr ymchwiliad presennol i bolisiâu a chynlluniau ynni.

Un corff amgylcheddol

Trafodwyd nifer o agweddau ar y cynnig i greu un corff amgylcheddol yn ystod y cyfarfod. Rydym yn deall bod unrhyw ddatblygiadau yn y cyswllt hwn yn dibynnu ar yr achos busnes sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae rhai agweddau ar hyn yn peri pryder, fodd bynnag, o ran y gyllideb:

- Rydym yn pryderu na fydd y broses 'buddsoddi i arbed' sy'n gysylltiedig â'r bwriad i uno'r tri chorff amgylcheddol, yn nodi arbedion penodol ac y bydd nifer o gostau ychwanegol yn codi. Nid yw ychwaith yn glir a yw'r llinell wariant yng nghyllideb Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol, sef £1.1 m yn ystod y flwyddyn bresennol, a £13m dros y tair blynedd nesaf, yn seiliedig ar 'fuddsoddi i arbed';
- Rydym yn pryderu na fydd costau'n lleihau wrth i'r un corff amgylcheddol gyflawni'i rôl fel ymgynghorai statudol oherwydd o fewn y corff hwn, bydd angen gwahanu'r swyddogaethau hynny y mae'r Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn eu cyflawni ar hyn o bryd;
- Rydym yn pryderu y bydd yr un corff amgylcheddol yn ymgymryd â gwaith ychwanegol i helpu i ddatblygu cynigion deddfwriaethol drwy roi cynlluniau a phrosiectau Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol ar waith ac, felly, ni fydd modd arbed arian.

2. Rydym yn eich annog i ystyried y materion hyn wrth bwysu a mesur yr achos busnes dros sefydlu un corff amgylcheddol ac i egluro a yw cyllid 'Buddsoddi i Arbed' yn cael eu defnyddio eisoes ar gyfer y broses ailstrwythuro.

Rydym yn croesawu'ch ymrwymiad i ganiatáu i'r pwyllgor weld yr achos busnes dros sefydlu un corff amgylcheddol wedi iddo gael ei gwblhau.

Addasu llinellau gwariant a materion yn ymwneud â gallu

Yn ystod y cyfarfod, bu i chi sôn am yr angen i addasu llinellau gwariant y gyllideb TB buchol a datblygu rheoliadau adeiladu. Adnoddau presennol Llywodraeth Cymru fyddai'n cael eu defnyddio hefyd, meddech chi, ar gyfer y gwaith a oedd ar y gweill i gyflwyno deddfwriaeth.

3. Rydym yn argymell bod y gwaith a wneir yng nghyswllt y llinellau gwariant priodol yn cael ei fonitro'n ofalus
4. Rydym yn argymell bod unrhyw addasiadau a gyflwynir yn y llinellau gwariant hynny yn ystod y flwyddyn yn dryloyw ac yn dangos o ble y daeth yr arian ar eu cyfer
5. Rydym yn argymell bod effaith gwaith deddfu ar yr adnoddau presennol yn cael ei fonitro'n ofalus a bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer yr amserlen ddeddfu.

Tlodi tanwydd

Trafodwyd y gostyngiad mewn termau real yn llinell wariant y rhaglen tlodi tanwydd. Gan fod pris tanwydd yn codi, rydym yn pryderu na fydd y gostyngiad hwn yn ddigon i gael effaith arwyddocaol ar ymdrechion i leihau tlodi tanwydd.

6. Rydym yn eich annog yn gryf i gymryd camau pendant i gael hyd i ffynonellau arian ychwanegol i gyflwyno mesurau i leihau tlodi tanwydd nid yn unig gan y prif gwmnïau ynni ond o gynifer o ffynonellau â phosibl.

Craffu ar daliadau i'r gronfa gyfunol

Trafodwyd yr hyn sy'n digwydd i daliadau a gafodd y Comisiwn Coedwigaeth fel landlordiaid o ganlyniad i gynlluniau ffermydd gwynt ar dir y mae'n ei reoli. Rydym yn pryderu bod y taliadau hyn yn mynd i'r gronfa gyfunol ac nad ydynt yn cael eu harchwilio yn llinell wariant unrhyw un o'r Gweinidogion.

7. Byddwn yn argymell bod y Pwyllgor Cyllid yn codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog Cyllid.

Asesiad o'r effaith ar gynaliadwyedd

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, gofynnwyd ichi a gwblhawyd asesiad o'r effaith ar gynaliadwyedd yng nghyswllt eich cyllideb. Rydym yn pryderu na chynhaliwyd adolygiad o'r effaith ar gynaliadwyedd yng nghyswllt y gyllideb ei hun, yn enwedig o gofio'r gostyngiad yn eich cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

8. Byddwn yn argymell bod y Pwyllgor Cyllid yn annog y Gweinidog Cyllid i sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar gynaliadwyedd yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl gyllidebau yng nghylch cyllideb 2012-13 a bod unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r asesiad yn cael eu dangos yn y ffigurau a roddir i'r pwyllgorau perthnasol yn ystod eu gwaith craffu, a bod y rhesymwaith dros y newidiadau'n glir.

Aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, gofynnwyd ichi a gwblhawyd aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb yng nghyswllt eich cyllideb. Rydym yn pryderu na chynhaliwyd adolygiad o'r effaith ar gydraddoldeb yng nghyswllt y gyllideb ei hun ers cylch cyllideb 2010.

- 6. Byddwn yn argymhell bod y Pwyllgor Cyllid yn annog y Gweinidog Cyllid i sicrhau bod aseidiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl gyllidebau yng nghylch cyllideb 2012-13 a bod unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r aseiad yn cael eu dangos yn y ffigurau a roddir i'r pwyllgorau perthnasol yn ystod eu gwaith craffu, a bod y rhesymwaith dros y newidiadau'n glir.**

Gwybodaeth ychwanegol

Rydych wedi cytuno i roi'r wybodaeth a ganlyn inni

- Gwybodaeth am drefniadau caffael systemau treulio anaerobig;
- Yr achos busnes manwl dros sefydlu un corff amgylcheddol, wedi iddo gael ei gwblhau.

Diolch am gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i waith, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn y llythyr hwn cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

Dafydd Elis Thomas

Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

c.c. Jocelyn Davies AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid

Annex B

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Children and Young People Committee

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

26 Hydref 2011

Annwyl Jocelyn

Yn ei gyfarfod ar 19 Hydref, bu'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn holi'r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol am y gyllideb ddrafft ar gyfer y ddau bortffolio sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Roedd gan y Pwyllgor bryderon difrifol am y ffordd y cafodd y gyllideb ei chyflwyno a'r diffyg tryloywder ac atebolrwydd, yn enwedig ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant. Teimlai'r Aelodau fod hyn yn amharu ar eu gallu i gyflawni'u gwaith o graffu ar gyllideb yr Adran a dwyn y Gweinidog i gyfrif.

Cred y Pwyllgor y dylai'r broses o graffu ar y gyllideb fod yn un barhaus ac nid yn broses sy'n digwydd unwaith y flwyddyn. Ein bwriad felly yw ei gynnwys fel rhan annatod o'n gwaith a byddwn yn gofyn i Weinidogion ddychwelyd at y Pwyllgor yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwariant yn cyflawni'r canlyniadau gofynnol mewn meysydd polisi penodol.

Byddwn yn ysgrifennu at y Gweinidogion perthnasol gan nodi ein pryderon mewn mwy o fanylder ac mae'r rhain wedi'u cynnwys mewn atodiad er gwybodaeth.

Yn gywir



Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru - 19 Hydref 2011

Y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau

Cyfalaf

Teimlai'r Aelodau fod diffyg gweledigaeth strategol a holwyd sut y byddai Llywodraeth Cymru'n canfod ble'r oedd cyfalaf i'w ddefnyddio. Mynegwyd pryder ynghylch cyflenwi rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gyda'r gyllideb ddrafft yn nodi gostyngiad mawr mewn gwariant cyfalaf, ond dim arwydd o sut oedd y gyllideb ostyngol yn mynd i gael ei dyrannu. Holodd yr Aelodau hefyd pam na allai'r Gweinidog roi cyngor ar ddyrannu cyfalaf i awdurdodau lleol er mwyn galluogi blaengynllunio, yn enwedig gan fod y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau wedi cyhoeddi'i Setliad Llywodraeth Leol dros dro ar gyfer 2012-13 ar 18 Hydref.

Dysgu 14-19

Roedd yr Aelodau'n pryderu y gallai cyflenwi'r Llwybrau Dysgu 14-19 fod yn heriol, gyda rhai awdurdodau lleol yn gorfod cyfyngu ar gludiant i fyfyrwyr mewn ymgais i leihau costau. Roedd yr Aelodau hefyd yn pryderu bod y Llinell Wariant hon yn y Gyllideb yn dibynnu ar wneud arbedion yn rhywle arall. Nodwyd awgrymiadau'r Gweinidog i oresgyn yr anawsterau posibl hyn ond roedd yr Aelodau'n parhau i bryderu bod y Gweinidog yn dibynnu ar bartneriaid i gyflenwi cyfran sylweddol o'r rhaglen.

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai gweithio rhanbarthol yn cyflawni arbedion mewn nifer o ardaloedd a'i fod yn bwriadu trosglwyddo'r rhain i wasanaethau rheng flaen. Nododd yr Aelodau fod yr arbedion hyn yn dibynnu ar gydweithrediad partneriaid allanol ac roeddent yn pryderu sut y cai'r arbedion eu cyflawni os nad oedd y partneriaethau hyn ar ddod.

Addysg Feithrin

Roedd yr Aelodau'n ansicr, o'r gyllideb ddrafft, faint o gyllid oedd yn cael ei ddyrannu i addysg feithrin a pha ran yr oedd addysg feithrin yn ei chwarae yn y strategaeth i wella safonau a chyflawniadau. Fel y cytunwyd, mae'r Aelodau'n edrych ymlaen at gael gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog am oblygiadau'r gyllideb ddrafft i addysg feithrin.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Tryloywder ac Atebolrwydd

Roedd gan y Pwyllgor bryderon difrifol am y ffordd y cafodd y gyllideb ei chyflwyno a'r diffyg tryloywder ac atebolrwydd. Teimlai'r Aelodau fod hyn yn amharu ar eu gallu i gyflawni'u gwaith o graffu ar gyllideb yr Adran a dwyn y Gweinidog i gyfrif. Roedd yn arbennig o anodd i olrhain dyraniadau cyllid ar gyfer gwasanaethau plant oherwydd y diffyg manylder yn y gyllideb. Cymhlethwyd hyn gan fod cyfrifoldebau'n cael eu rhannu rhwng nifer o sefydliadau cyflenwi. Hefyd, caiff y rhan fwyaf o wariant ar iechyd ei ddarparu i Fyrddau Iechyd Lleol drwy Faes Rhaglenni Gwariant Cyflenwi'r GIG, nad oedd gan y Pwyllgor wybodaeth ddigonol amdano i graffu arno. Roedd yr Aelodau hefyd yn pryderu am y diffyg atebolrwydd amlwg ar lefel Byrddau Iechyd Lleol, o gofio cred y Gweinidog ei bod yn amhriodol iddi ymyrryd yn y broses o wneud penderfyniadau lleol. Cred y Pwyllgor ei bod yn hanfodol i wella eglurder yn y maes hwn er mwyn caniatáu ar gyfer monitro a chraffu mwy effeithiol yn y dyfodol.

Teimlai'r Aelodau fod y Gweinidog yn dibynnu ar Fyrddau Iechyd Lleol i ddyrannu gwariant yn briodol er mwyn bodloni'i hymrwymiaadau polisi ond ni allai arddangos unrhyw ddull clir ar gyfer mesur canlyniadau. Roedd yr Aelodau hefyd yn pryderu nad oedd yn ymddangos bod gan y Gweinidog gynllun wrth gefn os na allai'r Byrddau Iechyd Lleol gyflawni'r ymrwymiaadau hyn.

Croesawodd y Pwyllgor ymrwymiad y Gweinidog i adolygu cyllidebau a glustnodwyd yn flynyddol ond roedd yn pryderu nad oedd yn ymddangos bod unrhyw egwyddorion clir ynghylch pryd y defnyddiwyd y dull clustnodi.

Awtistiaeth

Mynegodd y Pwyllgor bryder fod cyllid ar gyfer plant ag awtistiaeth yn cael ei symud i'r llinell Gweithredu dros Oedolion a Phobl Hŷn yn y gyllideb o'r llinell Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn y gyllideb, gan y gall hyn arwain at wasanaeth llai ar gyfer plant a gall fod yn anodd ei olrhain a'i fonitro yn y dyfodol.

Dechrau'n Deg

Er gwaetha'r dyraniad ychwanegol i Ddechrau'n Deg yn y gyllideb ddrafft, holodd yr Aelodau a fyddai hyn yn ddigonol i gyflawni'r bwriad polisi o ddyblu nifer y plant sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen. Ymddengys fod hyn yn gwrthdaro â gwybodaeth flaenorol a ddarparwyd i'r Pwyllgor. Hefyd, roedd yr Aelodau'n pryderu bod gofyn

i awdurdodau lleol ffurfio cynlluniau ar gyfer ehangu Dechrau'n Deg cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwerthusiad o effeithiolrwydd y rhaglen bresennol.

CAFCASS Cymru

Nododd y Pwyllgor y rhagwelwyd y byddai rhagor o gyllid yn cael ei ddyrannu i CAFCASS Cymru yn 2012-13, yn ychwanegol at yr hyn a nodwyd yng nghynigion y gyllideb ddrafft, ac y byddai hwn yn dod o gronfeydd canolog. Roedd yr Aelodau'n pryderu am yr effaith bosibl y byddai hyn yn ei gael ar ariannu rhaglenni eraill a gofynnwyd am wybodaeth reolaidd am y rhaglenni a effeithiwyd.

Annex C

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government
Committee

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

26 Hydref 2011

Annwyl Jocelyn

208. Fel rhan o'r broses o graffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13, bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith nifer o Weinidogion mewn perthynas â chynigion y gyllideb sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.

209. Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidogion dros ddau sesiwn:

- 13 Hydref

Y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb;

Y Gweinidog sy'n gyfrifol am dai a threftadaeth.

- 19 Hydref

Y Gweinidog sy'n gyfrifol am lywodraeth leol;

Y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Gymraeg;

Y Gweinidog sy'n gyfrifol am dwristiaeth.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu ein sylwadau. Mae'n bosibl y byddant yn llywio eich gwaith craffu strategol cyffredinol ar y gyllideb ddrafft.

Materion cyffredinol

210. Nododd y Pwyllgor bod diffyg targedau yn y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Gweinidogion. Rydym yn pryderu y bydd diffyg targedau yn ei gwneud yn anodd i'r Llywodraeth benderfynu a yw'r dyraniadau cyllid yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac, yn ogystal, y

bydd yn ei gwneud yn anodd i'r Cynulliad graffu ar effeithiolrwydd y gyllideb. Yn gysylltiedig â hyn, ni ddarparwyd tystiolaeth i'r Pwyllgor am rôl uned gyflawni Llywodraeth Cymru wrth fonitro effeithiolrwydd dyraniadau'r gyllideb i feysydd polisi penodol.

Craffu ar waith y Gweinidogion

Y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynnal proses sgrinio er mwyn asesu effeithiau posibl cynigion y gyllideb ddrafft ar gydraddoldeb. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd sgrinio polisiau ar ôl iddynt gael eu datblygu, ni chlywsom dystiolaeth fod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried yn ystod y broses honno. Os bydd materion cydraddoldeb yn cael eu prif ffrydio, mae'r Pwyllgor yn teimlo y dylent fod yn rhan ganolog o ddatblygu polisi.

Nododd y Pwyllgor y cafodd asesiad manwl o'r effaith ar gydraddoldeb manwl ei gynnal yn 2010. Fodd bynnag, nid yw'r un gwaith wedi cael ei wneud ar gyfer y gyllideb eleni. O gofio bod deddfwriaeth cydraddoldeb newydd wedi cael ei chyflwyno yn y flwyddyn ddiwethaf (gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar gyfer Cymru), a'r gostyngiadau mewn dyraniadau cyllideb, mae'r Pwyllgor yn teimlo y byddai'n briodol cynnal asesiad newydd o'r effaith ar gydraddoldeb.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn argymhell y dylai asesiad cadarn gynnwys: diben y penderfyniad; tystiolaeth o ymgysylltiad â rhanddeiliaid; nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol a negyddol; cynlluniau i liniaru unrhyw effeithiau negyddol, a chynlluniau i fonitro effaith wirioneddol y cynigion. Er ein bod yn derbyn y gallai fod yn anodd cymhwyso'r egwyddorion hyn i'r penderfyniadau a wneir mewn perthynas â dyraniadau cyllideb, dylai Llywodraeth Cymru anelu at ddarparu asesiad o'r fath. Yn benodol, roedd y Pwyllgor yn bryderus ynghylch y diffyg tystiolaeth o gynlluniau i fonitro effaith cynigion y gyllideb.

Y Gweinidog sy'n gyfrifol am dai a threftadaeth

Nododd y Pwyllgor fod y cyllidebau ar gyfer y meysydd portffolio hyn wedi cael eu gostwng. O ystyried y gostyngiadau hyn, roeddem yn pryderu na chlywsom dystiolaeth o dargedau neu gynlluniau ar gyfer monitro effeithiolrwydd y dyraniadau cyllideb. Mewn cyfnod lle mae

cyllidebau yn cael eu gwasgu, rydym yn teimlo ei bod yn hanfodol bod gweithdrefnau ar waith i fonitro effeithiolrwydd polisi ac ariannu.

Y Gweinidog sy'n gyfrifol am lywodraeth leol

Nododd y Pwyllgor fod ymdrechion i ddatrys hawliadau cyflog cyfartal ac i gyflwyno strwythurau tâl a graddio teg yn parhau. Yn ystod y trafodaethau, dywedodd y Gweinidog y byddai'n ysgrifennu at y Pwyllgor i egluro a fyddai'n bosibl i gyflwyno deddfwriaeth i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyrraedd setliadau, ac y byddai'n darparu gwybodaeth am sut y gwariodd awdurdodau lleol y £54 miliwn ychwanegol o gyllid Llywodraeth Cymru a ddyrannwyd i ymdrin â'r mater hwn. Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod cyflog cyfartal yn bwysig a bydd yn parhau i adolygu'r mater.

Nododd y Pwyllgor y gallai lleihad mewn cyllid olygu y bydd angen i awdurdodau lleol edrych i'r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd hyn yn rhoi baich ychwanegol ar y sector gwirfoddol, tra bod cyllidebau yn y sector hwnnw hefyd yn cael eu torri. Byddwn yn parhau i adolygu hyn.

Y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Gymraeg

Nododd y Pwyllgor na chafodd yr iaith Gymraeg ei chynnwys yn asesiad Llywodraeth Cymru o'r effaith ar gydraddoldeb. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb am y mater hwn, ac y byddai'n ysgrifennu at Weiniogion eraill mewn perthynas â chydraddoldeb y Gymraeg a'r Saesneg mewn cyfathrebiadau rhwng y Llywodraeth a'r cyhoedd.

Nododd y Pwyllgor nad oedd y broses o ddsbarthu cyllid rhwng Uned Iaith Gymraeg y Llywodraeth a'r Comisiynydd Iaith Gymraeg wedi cael ei gwblhau, er bod y symiau wedi cael eu dyrannu yn y gyllideb. Rydym yn bwriadu edrych ar y dyraniad hwn yn y dyfodol i sicrhau ei fod yn briodol.

Y Gweinidog sy'n gyfrifol am dwristiaeth

Nododd y Pwyllgor fod y Gweinidog dros Fenter, Busnes, Technoleg a Gwyddoniaeth yn y broses o adolygu cynlluniau gwario er mwyn sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r gyllideb, felly, yn adlewyrchu cynlluniau gwariant cyfredol yn ei hadran, ond mae'n bosibl y bydd y rhain yn newid yn y tymor byr neu ganolig. Yn yr amgylchiadau hyn, rydym yn teimlo ei bod yn anodd ystyried y gyllideb

yn drylwyr. Byddwn yn dychwelyd at hyn maes o law, unwaith y bydd y cynlluniau gwario yn cael eu cwblhau.

Hyderaf y bydd ein sylwadau yn ddefnyddiol wrth ichi graffu ar y gyllideb yn y dyfodol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Ann Jones". The script is cursive and fluid, with the first letters of "Ann" and "Jones" being capitalized and prominent.

Ann Jones AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddol

Annex D

**Y Pwyllgor Menter a Busnes
Enterprise and Business Committee**

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

26 Hydref 2011

Annwyl Jocelyn

Cyfarfu'r Pwyllgor Menter a Busnes ar 12 Hydref ac ar 20 Hydref i holi'r Gweinidogion fel rhan o'n gwaith o graffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13.

Rydym wedi ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn amlinellu ein pryderon a'n hargymhellion. Mae copiau o'r tri llythyr ynghlwm, a chyhoeddir hwy ar ein gwefan.

Hoffem ddwyn sylw'r Pwyllgor Cyllid at y pwyntiau a ganlyn, gan obeithio y bydd hyn yn llywio eich gwaith craffu strategol cyffredinol ar gynigion cyllideb y Llywodraeth.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Roeddem yn pryderu'n ddirfawr am sut y cyflwynwyd y gyllideb a'r diffyg eglurder ym mhapur y Gweinidog o ran llinellau sylfaen a throsglwyddiadau. Rydym o'r farn bod hyn wedi effeithio ar ein gallu i gyflawni ein rôl o graffu ar gyllideb yr Adran ac o ddwyn y Gweinidogion i gyfrif ar ran pobl Cymru. Felly rydym yn tynnu eich

sylw at yr adran ar Gyflwyno'r Gyllideb Ddrafft ac at argymhelliad 1 yn ein llythyr.

Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

Roedd gennym rai pryderon ynghylch faint o fanylion a gafwyd wrth gyflwyno'r Gyllideb Ddrafft, cysondeb y gwaith dadansoddi ym mhapur y Gweinidog, a hefyd y diffyg alinio rhwng y Gyllideb Ddrafft a sut y cyflawnir Rhaglen ymrwymadau'r Llywodraeth. Felly, rydym yn dwyn eich sylw at argymhellion 1 a 3 yn ein llythyr.

Roeddem yn pryderu hefyd ynghylch y diffyg targedau perfformiad a fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer rhan fawr o'r portffolio Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Felly, rydym yn dwyn eich sylw at argymhelliad 4 yn ein llythyr.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Roedd gennym rai pryderon ynghylch y diffyg manylion am gyflawni o fewn y gyllideb, gan fod y Gweinidog yn adolygu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ar hyn o bryd, ac roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i ni graffu ar y gyllideb.

Hyderwn y bydd y pwyntiau hyn yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Nick', with a horizontal line underneath it.

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes

Y Pwyllgor Menter a Busnes
Enterprise and Business Committee

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau
Llywodraeth Cymru

26 Hydref 2011

Annwyl Carl

Diolch i chi am fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes ar 20 Hydref fel rhan o'n gwaith craffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13.

Hoffai'r Pwyllgor wneud nifer o argymhellion i chi eu hystyried. Yr ydym hefyd yn ysgrifennu llythyrau yn cynnwys argymhellion at y Gweinidog dros Fusnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ac at y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau. Mae copi o'r tri llythyr yn cael eu hanfon at y Pwyllgor Cyllid er mwyn llywio'i waith craffu ar y Gyllideb Ddrafft, a chant eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Alinio'r Gyllideb Ddrafft a'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol

Roedd y Pwyllgor yn croesawu'ch datganiad ynghylch ail-flaenoriaethu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a chafodd ei galonogi na fyddai "unrhyw beth yn mynd i mewn i'r cynllun nac yn cael ei dynnu ohono", ac na chaiff prif ffigurau'r gyllideb eu heffeithio. Fodd bynnag, canfu'r Pwyllgor fod y diffyg manylion am gyflenwi o fewn y gyllideb, o ganlyniad i adolygu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, yn ei gwneud yn anodd craffu ar y gyllideb. I'r perwyl hwn bydd y Pwyllgor yn awyddus i ystyried canlyniad yr ymarfer ail-flaenoriaethu ac, wedi hynny, i fonitro'r ffordd y caiff y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol diwygiedig ei roi ar waith a'i wario.

- 1. Yr ydym yn argymhell eich bod yn darparu manylion llawn i ni am ganlyniad ymarfer ail-flaenoriaethu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol wedi iddo gael ei gwblhau, gan gynnwys unrhyw effaith y gall hwn ei gael ar y gyllideb dros y tair blynedd nesaf.**

Rheoli Prosiectau o fewn y Portffolio Trafnidiaeth

Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed am yr agwedd yr ydych yn bwriadu ei mabwysiadu tuag at ddyfarnu contractau ar gyfer prosiectau seilwaith yn y dyfodol. Roedd y Pwyllgor, fodd bynnag, yn pryderu am yr effaith bosibl y gallai hyn ei gael ar y cwmnïau sy'n darparu'r gwasanaeth, yn enwedig y rheini yn y sector gwirfoddol. Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r gydnabyddiaeth o derfynau amser neu gostau sy'n cael eu gorbwysleisio mewn perthynas â phrosiectau a byddai'n croesawu mwy o fanylion ynghylch sut yr ydych yn bwriadu osgoi hyn mewn contractau yn y dyfodol.

- 2. Yr ydym yn argymhell bod eich agwedd newydd arfaethedig tuag at reoli risg yn cynnwys dulliau diogelu i warchod darparwyr gwasanaethau, yn enwedig y rheini o'r trydydd sector, rhag cael lefelau niweidiol o risg wedi'u trosglwyddo iddynt. Yr ydym hefyd yn argymhell eich bod yn darparu manylion i ni am y ffordd yr ydych yn bwriadu osgoi terfynau amser neu gostau sy'n cael eu gorbwysleisio mewn perthynas â phrosiectau yn y dyfodol.**

Parthau Menter

Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y dystiolaeth a ddarparwyd gennych am barthau menter, yn enwedig y ffaith y byddai lleoliad y rhain yn ffactor wrth ail-flaenoriaethu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oedd yn ymddangos bod unrhyw gyllideb ychwanegol i hwyluso trafndiaeth integredig i'r broses o gynllunio ar gyfer parthau menter. Felly, byddai'n eich annog i weithio gyda'r Gweinidog dros Fusnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i sicrhau cyllid ar gyfer hyn o'r £10 miliwn ôl-ddilynol.

- 3. Yr ydym yn argymhell eich bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y ffordd y mae trafndiaeth yn cael ei integreiddio i gynlluniau ar gyfer y parthau menter ac unrhyw oblygiadau posibl i'r gyllideb.**

Gwybodaeth ychwanegol

Fe wnaethoch gytuno i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol ganlynol i ni:

- Yr offer monitro a ddefnyddir gan eich adran i arddangos llwyddiant o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol
- Y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau Llywodraeth Cymru ynghylch ariannu posibl ar gyfer trydaneiddio prif linell y Great Western i Abertawe.
- Eglurhad ynghylch sut y caiff y symiau nad ydynt yn arian parod yn y gyllideb eu pennu
- Adroddiad cynnydd ar y fenter cardiau call

Diolch i chi am helpu'r Pwyllgor gyda'i waith, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Nick', with a horizontal line underneath it.

Nick Ramsay AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Menter a Busnes

c.c. Jocelyn Davies AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid

Y Pwyllgor Menter a Busnes Enterprise and Business Committee

Edwina Hart AC
Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Llywodraeth Cymru

20 Hydref 2011

Annwyl Edwina

Hoffem ddiolch i chi a'ch swyddogion am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes ar 12 Hydref fel rhan o'n gwaith craffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13.

Hoffai'r Pwyllgor gyflwyno nifer o sylwadau i'w hystyried gennych. Rydym hefyd yn ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau ac at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae'r tri llythyr yn cael eu copïo i'r Pwyllgor Cyllid er mwyn llywio ei waith craffu strategol cyffredinol ar y Gyllideb Ddrafft, a chyhoeddir hwy ar ein gwefan.

Cyflwyno'r Gyllideb Ddrafft

Ein cyfrifoldeb ni yw craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru a dwyn i gyfrif y Gweinidogion ar ran pobl Cymru. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y tablau cyllidebol yn eich papur naill ai'n dangos newidiadau o un flwyddyn i'r llall, neu'n galluogi iddynt gael eu cyfrif, a bod y mwyafrif o'r dadansoddiadau yn eich papur hefyd yn canolbwyntio ar newidiadau o un flwyddyn i'r llall.

Fodd bynnag, os ydym am fod yn effeithiol yn ein rôl, byddwn angen rhagor o eglurder a mwy o fanylion o ran y wybodaeth a gyflwynir i ni. Gwnaed ein tasg o graffu'n anoddach hefyd gan na chawsom eich papur tan 7 Hydref, y dydd Gwener cyn y sesiwn graffu.

- 1. Rydym yn argymhell y dylem, yn y blynyddoedd nesaf, gael papur ar y gyllideb sy'n dangos yn eglur a manwl lle y gwnaed newidiadau, ac o ba linellau sylfaen y maent wedi eu cyfrif. Rydym hefyd yn argymhell, mewn Cyllidebau Drafft yn y dyfodol, y dylai'r newidiadau arfaethedig gael eu cyflwyno a'u dadansoddi'n gyson â'i gilydd ym mhapur y Gweinidog ar sail flynyddol ac y dylem gael y wybodaeth hon o leiaf un wythnos cyn y sesiwn graffu ar y gyllideb.**

Rydych wedi cytuno i anfon nodyn atom ar y trosglwyddiadau cyllidebol sydd wedi digwydd hyd yma o fewn gwahanol feysydd eich portffolio. Er gwybodaeth, gwnaethpwyd cais gennym hefyd, trwy'r Clerc, ar 28 Medi, am ddadansoddiad o'r dyraniadau o fewn eich cyllideb ar gyfer y meysydd polisi a ganlyn: hyrwyddo mewnfuddsoddi; pob un o'ch naw sector allweddol; y cynllun arian busnes ad-daladwy; Ardaloedd Menter; a chymorth ar gyfer microfentrau.

- 2. Gan na chawsom y wybodaeth hon, gofynnwn fod y manylion hyn yn cael eu hanfon atom cyn gynted â phosibl.**

Alinio'r Gyllideb Ddrafft a Darparu Polisiau

Mae'n ymddangos bod pob Cyllideb Ddrafft Adrannol arall Llywodraeth Cymru wedi'u hail-alinio i gyflawni'r ymrwymïadau yn y Rhaglen Lywodraethu newydd. Roeddem yn deall yn ôl eich ymateb i'n cwestiynau yn hyn o beth eich bod yn parhau i fod ar ganol y broses o wneud yn derfynol gynlluniau gwariant eich portffolio, gan eich bod yn parhau i adolygu meysydd polisi allweddol.

Rydym yn gwerthfawrogi y bydd angen rhyw gymaint o hyblygrwydd i addasu gwario eich Adran i'r newidiadau yn eich blaenoriaethau, a hefyd i'r newidiadau yn yr hinsawdd economaidd pan fyddant yn codi.

Fodd bynnag, mae hefyd angen gwariant craidd sy'n galluogi ni fel Pwyllgor i fonitro gwariant dros flynyddoedd dilynol ac gwerthuso gweithgareddau eich Adran yn ôl y targedau a'r canlyniadau a bennwyd. Rydych wedi dweud bod y targedau hynny yn parhau i gael eu ffurfio.

- 3. Rydym yn argymhell eich bod yn rhoi gwybodaeth reolaidd i ni am sut y mae eich blaenoriaethau a'ch cyllideb yn cael eu halinio, a hoffem pe baech yn ymddangos eto gerbron y**

Pwyllgor yn y Flwyddyn Newydd i roi gwybod i ni am gynnydd i gyflawni'r alinio hwnnw.

Mesur Perfformiad

Roeddem yn pryderu am gynnydd o ran gosod targedau perfformiad ar gyfer gweithgareddau eich Adran. Rydym yn sylweddoli bod angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu dull mwy soffistigedig a hirdymor o fesur a gwerthuso perfformiad, ac eich bod ar ganol datblygu'r gwaith hwn ar hyn o bryd. Hefyd rhoesoch wybod i ni eich bod yn sefydlu llinellau sylfaen a thargedau ar gyfer mesur canlyniadau.

- 4. Hoffem pe baech yn cyhoeddi eich fframwaith mesur perfformiad cyn gynted ag y bo modd ac edrychwn ymlaen at graffu arno maes o law.**

Cynllun Arian Busnes Ad-daladwy

Deallwn fod Llywodraeth Cymru wedi newid ei chymorth i fusnesau o grantiau i fenthyciadau, ond fel y trafodwyd yn y sesiwn dystiolaeth, nid oedd modd i ni adnabod lle mae'r ffrwd refeniw o'r cymorth hwnnw i'w weld yn y Gyllideb Ddrafft.

- 5. Gwnaethoch gynnig rhoi papur i ni yn y Flwyddyn Newydd am faint o refeniw y gellid ei ddisgwyl yn y dyfodol o'r cynllun arian busnes ad-daladwy, a byddwn yn awyddus i ddadansoddi'r manylion maes o law.**

Mewnfuddsoddi

Dywedwyd wrthym eich bod yn anelu at gael dull gweithredu mwy cydlynol o ran mewnfuddsoddi a'i bod yn bosibl y bydd angen ymestyn adnoddau ymhellach yn y maes hwn. Esboniwyd gennych eich bod am weld gwelliant yn safle Cymru yn y DU, mwy o broffesiynoldeb, a mwy o ddefnydd o "Tîm Cymru". Hefyd cyfeiriodd swyddogion at welliannau a oedd yn angenrheidiol yn ansawdd cynnig Cymru a nifer y swyddi sy'n dod i mewn i Gymru.

- 6. Rydym yn gwerthfawrogi eich bod yn parhau i adolygu polisi mewnfuddsoddi, ond rydym yn eich annog i nodi rhai canlyniadau amlwg a ddisgwylir gennych o ganlyniad i wariant a gweithgareddau eich Adran yn y maes hwn.**

Seilwaith

Dywedwyd wrthym eich bod yn hyderus y bydd arian digonol ar gael ar gyfer darparu prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf (neu “Fynediad yr 21^{ain} Ganrif”), er, rydym yn sylweddoli nad oedd modd i chi roi llawer o fanylion i ni ar y dyraniad cyllidebol ar gyfer hyn oherwydd y cyddrafodaethau sy’n digwydd ar y contract ar hyn o bryd.

- 7. Rydym yn argymhell, pe digwydd codiadau posibl mewn costau yn ystod cyfnod gweithredu prosiect Mynediad yr 21^{ain} Ganrif y bydd Llywodraeth Cymru’n dod o hyd i’r adnoddau i dalu’r costau ychwanegol hynny, a’ch bod yn rhoi rhagor o wybodaeth i ni ar y prosiect hwn pan fydd cytundeb ar y contract.**

Cynaliadwyedd

Pan wnaethom ofyn i chi a oedd gwerthusiad cynaliadwyedd wedi’i wneud wrth baratoi Cyllideb Ddrafft eich adran, dywedwyd wrthym gennych eich bod wedi cymryd golwg eang ar faterion cynaliadwyedd. Felly roeddem yn falch o glywed eich bod am wneud rhagor o waith yn hyn o beth rhwng nawr a phan fyddwch yn paratoi’r gyllideb derfynol.

- 8. Rydym yn eich annog i wneud y gwaith a addawyd ar werthusiad cynaliadwyedd o’ch cyllideb derfynol, a hefyd i ystyried amodau ariannu ar gyfer cymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau sy’n hyrwyddo materion gwyrdd fel lleihau allyriadau carbon, yn hyrwyddo defnyddio ynni’n effeithiol, ac yn cynnal cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol.**

Datganiad y Prif Weinidog ar Ysgogiad Economaidd

Ar y prynhawn yn dilyn y sesiwn graffu ar y gyllideb, gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran ysgogiad economaidd.

- 9. Byddem yn croesawu nodyn, ar yr amser priodol, sy’n nodi’r graddau y bydd unrhyw faint o’r arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu i’ch adran, a beth y bwriedir iddo’i ddarparu.**

Gwybodaeth ychwanegol

- 10. Cytunwyd gennych i anfon manylion am brosiectau llwyddiannus ac arbedion a sicrhawyd mewn cysylltiad â’r Rhaglen Buddsoddi i Arbed a’r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi.**

Diolch i chi am gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei waith, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb i'r pwyntiau sy'n codi yn y llythyr hwn, cyn gynted ag sy'n bosibl.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Nick', with a horizontal line underneath.

Nick Ramsay AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Menter a Busnes

c.c. Jocelyn Davies AC, Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid

Y Pwyllgor Menter a Busnes Enterprise and Business Committee

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru

Annwyl Leighton

Hoffwn ddiolch i chi a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes ar 12 Hydref fel rhan o'n gwaith o graffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13.

Hoffai'r Pwyllgor gyflwyno nifer o sylwadau i'w hystyried gennych. Rydym hefyd yn ysgrifennu at y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ac at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae'r tri llythyr yn cael eu copïo i'r Pwyllgor Cyllid er mwyn llywio ei waith craffu strategol cyffredinol ar y Gyllideb Ddrafft, a byddant yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Cyflwyno'r Gyllideb

Trafodwyd gyda chi yn y sesiwn dystiolaeth y ffaith bod y Pwyllgor wedi ei chael yn anodd gwneud unrhyw gymhariaeth ystyrlon rhwng Cyllideb Ddrafft 2012-13 a chyllidebau ar gyfer blynyddoedd blaenorol oherwydd y ffordd y cyflwynwyd y Gyllideb Ddrafft y tro hwn. Rydym yn ymwybodol bod y Llywodraeth wedi gorfod gwneud nifer o drosglwyddiadau cyllidebol o fewn adrannau a rhyngddynt o ganlyniad i ad-drefnu cyfrifoldebau portffolios, ailstrwythuro adrannau ac ail-flaenoriaethu yn sgil ymrwymadau yn y maniffesto. Fodd bynnag, mae'r diffyg tryloywder ynghylch y newidiadau a wnaed i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau wedi ei gwneud yn anodd iawn i ni fel Pwyllgor olrhain a chraffu ar y newidiadau hynny.

Yn benodol, nid oedd y llinellau sylfaen y cyfeiriwyd atynt yn eich papur yn cyfateb i'r llinellau sylfaen hynny a gyhoeddwyd yn

nogfennau'r gyllideb, ac roedd diffyg eglurder rhwng y cynlluniau dangosol ar adeg y gyllideb atodol, y trosglwyddiadau a wnaed a beth yw'r gyllideb yn awr. Yn ogystal, gwnaed ein gwaith yn anoddach byth gan y ffaith i ni gael gwybodaeth hanfodol ddiwrnod yn unig cyn ein sesiwn graffu.

Ar ôl y sesiwn graffu, cawsom ein hysbysu, o ran y trosglwyddiadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau, a'r llinell sylfaen y cyfeirir ati yn eich papur sy'n deillio o hynny, ynghylch y ffaith bod dogfen naratif Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13 (tudalen 46) yn nodi y bydd y trosglwyddiadau hyn 'yn cael eu hadlewyrchu yn y Gyllideb Atodol nesaf ac, o'r herwydd, nid ydynt wedi'u cynnwys o fewn y llinell sylfaen a gyhoeddwyd ar gyfer 2011-12.' Felly, ymddengys nad yw'r llinellau sylfaen a ddefnyddiwyd i gyflwyno eich tystiolaeth wedi'u gweithredu eto, gan na fydd y trosglwyddiadau'n digwydd nes y cyhoeddir y Gyllideb Atodol nesaf ar gyfer 2011-12 (a ddisgwylir ym mis Chwefror 2012).

Rydym yn gwerthfawrogi eich bod yn dangos eich bwriad i wneud trosglwyddiadau o'r fath, ond oherwydd nad ydynt wedi'u gwneud eto, ac na wneir hwy nes y cyhoeddir Cyllideb Atodol ddiweddarach, ystyriwn ei bod yn amhriodol fod eich tystiolaeth i gefnogi'r Gyllideb Ddrafft wedi'i chyflwyno ar sail llinell sylfaen a oedd yn cynnwys y trosglwyddiadau hyn.

Rydym o'r farn bod ein gallu i graffu ar gyllideb yr Adran ac i ddwyn Gweinidogion i gyfrif ar ran pobl Cymru wedi'i beryglu'n fawr o ganlyniad i'r wybodaeth a roddwyd i ni.

- 1. Rydym yn gwerthfawrogi y bu hon yn flwyddyn eithriadol, ond rydym yn argymhell y dylid cyflwyno llinellau sylfaen sy'n cyfateb i'w gilydd mewn cyllidebau drafft yn y dyfodol fel y gallwn fonitro, olrhain a gwerthuso gwariant y Llywodraeth yn effeithiol. Byddem hefyd yn argymhell y dylai llinellau sylfaen 2011-12, y cyfeirir atynt yn y dystiolaeth, gyfateb i'r hyn a gyhoeddwyd ac na ddylent adlewyrchu trosglwyddiadau sydd eto i ddigwydd. Rydym hefyd yn argymhell y dylid dangos newidiadau arfaethedig ar sail flynyddol yn hytrach nag fel newidiadau o ffigurau dangosol yn y gyllideb atodol flaenorol, ac y dylid rhoi'r holl**

wybodaeth hon i ni o leiaf wythnos cyn y sesiwn graffu fel bod cyfle digonol i ni ddadansoddi'r ffigurau.

Ffioedd Dysgu Addysg Uwch

Yn y sesiwn dystiolaeth, buom yn trafod â chi yr effaith bosibl a gaiff y nifer o fyfyrwyr sy'n dod o'r tu allan i Gymru ar sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ac felly yr effaith a gaiff ar ariannu. Gwnaethom ofyn hefyd sut roedd Llywodraeth Cymru'n asesu nifer y myfyrwyr rhan amser a pha effaith a gaiff ffioedd dysgu uwch ar ddyheadau myfyrwyr. Roeddech yn cydnabod pa mor anodd yw amcangyfrif beth fydd y llif trawsffiniol yn y dyfodol a'r effaith y gallai ffioedd uwch ei chael yn y dyfodol, nid yn unig ar niferoedd myfyrwyr, ond o ran a fydd mwy o fyfyrwyr o Gymru yn dewis astudio yng Nghymru.

- 2. Byddem yn eich annog i barhau i ymchwilio i'r materion hyn gyda'ch cynghorwyr ac â gwledydd eraill er mwyn cael yr amcangyfrifon gorau posibl, ac eich bod yn adolygu eich dyraniadau cyllidebol yn rheolaidd yn unol â hynny.**
- 3. Ymhellach ar y mater o astudio'n rhan amser ac yng nghydestun y ffaith bod rhagor o bobl yn dymuno ail-hyfforddi, ennill rhagor o sgiliau a dychwelyd i'r gwaith yn yr hinsawdd economaidd bresennol, rydym yn argymhell eich bod yn canolbwyntio'r sylw fwyfwy ar ragweld y galw am gefnogaeth rhan amser i'r bobl hynny sydd eisoes wedi graddio. Byddem yn eich annog i barhau i adolygu'r mater hwn.**

Myfyrwyr yr Undeb Ewropeaidd

- 4. Byddem yn ddiolchgar i gael eich asesiad o'r goblygiadau ariannol *ar gyfer Llywodraeth Cymru* o gael myfyrwyr Ewropeaidd yn astudio yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU.**
- 5. Byddem yn ddiolchgar hefyd pe byddai modd i chi gadarnhau nad yw'r sefyllfa lle bydd myfyrwyr o'r UE yn astudio yn Lloegr ac yn cael lefelau gwahanol o gymorth ariannol i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn Lloegr, o fis Medi 2012, yn tramgwyddo ar egwyddorion yr UE.**

Gwybodaeth ychwanegol

6. Gwnaethoch gytuno i roi rhagor o wybodaeth inni am yr hyn a ganlyn:

- Enghreifftiau o uno colegau sydd wedi arwain at arbedion.
- Ffigurau sy'n ymwneud â'r cyllid ychwanegol y bydd ei angen i ateb y cynnydd mewn ffioedd dysgu i fyfyrwyr Cymru, a ffigurau sy'n gysylltiedig â tharddiad y cyllid ychwanegol hwn.
- Nodyn ynghylch y cynnydd yn y cyllid a fydd ar gael ar gyfer y Coleg Ffederal ac Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd.
- Nodyn ynghylch a gaiff y dyraniad cyllidebol ar gyfer Uned Gyflawni'r Iaith Gymraeg ei ddefnyddio ar gyfer oedolion sy'n dysgu Gymraeg.
- Nodyn ynghylch y dyraniad cyllidebol ar gyfer y Mudiad Ysgolion Meithrin.

Diolch i chi am gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei waith, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb i'r pwyntiau sy'n codi yn y llythyr hwn cyn gynted ag sy'n bosibl.

Yn gywir

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Business

c.c. Jocelyn Davies AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid

Annex E

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Jocelyn Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

26 Hydref 2011

Annwyl Jocelyn

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 20 Hydref mewn cysylltiad â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru gan ei fod yn effeithio ar bortffolio ein pwyllgor ni. Mae'r llythyr hwn yn cyflwyno ein sylwadau, a allai lywio eich gwaith craffu strategol cyffredinol ar y Gyllideb Ddrafft.

Byddwn hefyd yn rhannu ein safbwyntiau â'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog a chyhoeddir y llythyrau hyn ar ein gwefan.

Y defnydd o ffigurau chwyddiant

Yn gyffredinol, rydym yn awyddus i fynegi ein pryderon nad yw ffigur dadchwyddo CMC Trysorlys Ei Mawrhydi, fel y'i defnyddir yn gyffredinol wrth gynllunio cyllidebau, o bosibl yn arbennig o berthnasol ar gyfer y gyllideb gofal iechyd gan fod chwyddiant gofal iechyd yn tueddu i fod yn uwch na lefelau chwyddiant safonol. Yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni, awgrymodd swyddogion iechyd bod ffigurau chwyddiant mwy perthnasol yn cael eu defnyddio wrth gynllunio cyllidebau gofal iechyd, ond ni roddwyd rhagor o fanylion ynghylch y tybiaethau a ddefnyddir i ganfod effeithiau gwirioneddol y newidiadau cyllidebol a nodir yn y tablau a ddarparwyd.

Tybiaethau'r gyllideb a chynllunio ar gyfer ymrwymadau a deddfwriaeth y Llywodraeth

Rydym yn pryderu ynghylch effeithiau ymrwymadau'r Llywodraeth a'r deddfwriaeth y mae'n ei chynllunio o ran y gyllideb. Nodir pedair o'r deddfwriaethau hynny mewn Atodiad i'r llythyr hwn. Yn ein sesiwn graffu, pwysleisiodd Gweinidogion fod pob un ohonynt yn parhau i gael eu trafod, ac nad oedd casgliadau pendant eto ynghylch

goblygiadau cyllidebol yr ymrwymadau hyn yn y blynyddoedd nesaf. Rydym yn parhau i bryderu am yr effaith bosibl y gallai cyflawni'r ymrwymadau hyn ei chael yng nghylchoedd cynllunio'r gyllideb yn y dyfodol, a bwriadwn barhau i adolygu'r mater hwn yn ein rhaglen waith ein hunain yn y dyfodol.

Cymorth refeniw ychwanegol ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol

Er ein bod yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i:

- ddarparu £83 miliwn yn ychwanegol yn 2012-13 i roi Byrddau Iechyd Lleol ar sail ariannol gynaliadwy; a
- darparu rhagor o arian yn y ddwy flynedd nesaf,

rydym yn ansicr a fydd lefel y dyraniadau arian cyffredinol a'r dyraniadau unigol yn ddigonol i fynd i'r afael â'r anawsterau ariannu y mae'r Byrddau Iechyd Lleol eisoes wedi'u nodi yn y flwyddyn gyffredol.

Gwyddom fod £20 miliwn eisoes wedi'i ddyrannu i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, ac mae'r £63 miliwn sy'n weddill i'w ddyrannu o hyd.

Rydym yn croesawu'r sicrwydd a roddodd y Gweinidog y bydd gwybodaeth am y dyraniadau yn cael ei chyhoeddi cyn gynted ag y bydd ar gael, o bosibl o fewn y mis nesaf.

Rydym yn dal yn bryderus, fodd bynnag, na fydd dyrannu'r arian ychwanegol sydd ar gael ar ddechrau cyfnod nesaf y gyllideb o bosibl yn rhoi digon o hyblygrwydd i'r Gweinidog os oes angen rhagor o gymorth ar Fwrdd Iechyd unigol neu fwy nag un Bwrdd Iechyd Lleol tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Gallu gwasanaethau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd parhaus

Yr hyn sy'n hanfodol i dybiaethau'r Gweinidog ynghylch gweithredu'r gyllideb hon yw sicrhau bod y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn cyflawni llawer iawn o arbedion effeithlonrwydd. Rydym yn pryderu o hyd, yn benodol ynghylch gallu pob Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau'r arbedion sy'n ofynnol. Nid oeddem yn ei chael yn rhwydd rhannu hyder y Gweinidog y bydd yn bosibl cyrraedd y lefelau arbedion effeithlonrwydd yn gyson drwy'r sector iechyd yng Nghymru. Hefyd, clywsom mai un dull allweddol ar gyfer sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd sy'n ofynnol fydd 'trawsnewid y gwasanaeth'. Rydym yn sicr y bydd angen rhagor o eglurder, yn ystod cyfnod y gyllideb hon, ynghylch sut y bydd trawsnewid o'r fath yn y gwasanaeth yn sicrhau'r arbedion yn ymarferol.

Disgwylir i Gyngor Gofal Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn sicrhau oddeutu 3 y cant o arbedion effeithlonrwydd y flwyddyn nesaf. Nodwn fod trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru ar y gyllideb, a bwriadwn ailedrych ar y materion hyn pan osodir y gyllideb atodol ar gyfer 2012-13 yn gynnar yn 2012. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r pwysau sy'n debygol o ddod ar ysgwyddau'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn sgil newidiadau demograffig a mwy o ymwybyddiaeth am y swydd.

Hefyd, buom yn trafod gyda'r Gweinidog oblygiadau neilltuo'r gyllideb iechyd meddwl ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, a chost monitro a rheoli hyn. Cytunodd y Gweinidog i anfon rhagor o wybodaeth i ni am y broses o neilltuo arian yn y maes polisi hwn ar hyn o bryd, a dywedodd ei bod yn tueddu i ffafrio parhau i neilltuo arian yn y dyfodol.

Cynllunio a gwariant cyfalaf

Bu gostyngiad sylweddol mewn gwariant cyfalaf ar draws y portffolio. Dywedodd y Gweinidog na fydd penderfyniadau ar wariant cyfalaf strategol ar ofal iechyd yn cael eu gwneud tra bo cynlluniau gwasanaeth gofal iechyd yn cael eu datblygu. Er ein bod yn deall nad yw hyn yn cael effaith ar gynlluniau cyfalaf sydd eisoes ar waith, mae gennym bryderon dirfawr y gallai oedi o ran gwneud penderfyniadau ar weithredu prosiectau cyfalaf yn brydlon yn y dyfodol, yn enwedig ar adeg pan fo cynlluniau cyfalaf cyhoeddus mor bwysig i'r economi ehangach.

Roeddem yn croesawu gonestrwydd y Dirprwy Weinidog wrth sôn am lefel y toriadau yn y gwariant cyfalaf yn ei phortffolio, ond rydym yn parhau i bryderu am yr effaith y gallai colli'r gwariant cyfalaf ei chael ar ledaenu rhaglen Dechrau'n Deg ymhellach.

Hyderaf y bydd ein sylwadau yn ddefnyddiol ar gyfer eich gwaith o graffu ar y gyllideb yn y dyfodol.

Yn gywir

Mark Drakeford

Mark Drakeford AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Atodiad 1

Goblygiadau cyllidebol ymrwymadau'r Llywodraeth

- **Mynediad gwell i feddygfeydd meddygon teulu gyda'r nos ac ar fore Sadwrn**

Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd disgwyl y byddai goblygiadau cyllidebol i'r gwaith cychwynnol o edrych ar wella mynediad o fewn yr oriau craidd presennol ar gyfer Meddygon Teulu (8.00-18.30) a bod disgwyl y byddai'n cael ei gwblhau'n fuan.

Roedd gwaith pellach ar wella'r mynediad ar benwythnosau yn parhau i gael ei ddatblygu, fodd bynnag, ac nid oes gwybodaeth ariannol ar gael hyd yn hyn. Gwnaethom nodi sylw'r Gweinidog y gallai rhan o'r gwaith hwn edrych ar 'fodelau newydd i sicrhau mynediad', ond rydym yn parhau i chwilio am sicrwydd ynghylch sut y gellir cyflawni'r ymrwymiad hwn yn gyfangwbl o fewn cynlluniau'r gyllideb bresennol.

- **Cyflwyno archwiliadau iechyd blynyddol i bobl dros 50 oed**
Er ein bod yn cefnogi rhoi mwy o ffocws ar atal afiechydon, rydym yn pryderu nad oes ffigurau ynghlwm â'r ymrwymiad hwn. Bydd angen i unrhyw gyfrifiadau ar gyfer y gyllideb ystyried costau ychwanegol sy'n deillio o nodi unrhyw broblemau iechyd, yn ogystal â chost cynnig yr archwiliad iechyd blynyddol.

- **Cyflwyno a gweithredu'r Bil Glendid Bwyd**
Ym marn y Pwyllgor, roedd diffyg eglurder ynghylch goblygiadau'r ddeddfwriaeth hon o ran y gyllideb, yn arbennig yng nghyd-destun y gostyngiad sylweddol yng nghyllideb yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Er ein bod yn cydnabod bod cyfleoedd o bosibl i awdurdodau lleol gynhyrchu incwm a allai helpu i dalu am ei weithredu, mae angen ystyried goblygiadau cyllidebol cyflwyno a gweithredu'r ddeddfwriaeth hon ymhellach.

- **Cyflwyno a gweithredu'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol**
Rydym yn ymwybodol y bydd arian yn cael ei ddyrannu o ddyraniad cyllidebol Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i

fwrw ymlaen â'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol, ond mae'r Llywodraeth yn parhau i wneud y gwaith manwl sy'n angenrheidiol i nodi costau gweithredu'r Bil. Er ein bod yn deall yr ystyrir hyn wrth i'r Llywodraeth ddatblygu'r Bil ymhellach, mae'n parhau i fod yn faes lle y bydd angen sicrwydd y bydd arian ar gael i gyflawni'r bwriad o ran y ddeddfwriaeth.

Atodiad 2: Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yma:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=1243>

28 Medi 2011

Jane Hutt AC	Y Gweinidog Cyllid
Andrew Jeffreys	Pennaeth Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru
Jo Salway	Pennaeth Polisi'r Gyllideb, Llywodraeth Cymru
Jeff Andrews	Cynghorydd Polisi Arbenigol, Cyllid, Llywodraeth Cymru
Steve Thomas CBE	Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Y Cynghorydd Rodney Berman	Llefarydd Cyllid CLILC ac Arweinydd Cyngor Sir Caerdydd
Vanessa Phillips	Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

12 Hydref 2011

Jane Hutt AC	Y Gweinidog Cyllid
Andrew Jeffreys	Pennaeth Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru
Jeff Andrews	Cynghorydd Polisi Arbenigol, Cyllid, Llywodraeth Cymru
Michael Hearty	Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad,

Llywodraeth Cymru

Phil Fiander	Cyfarwyddwr Rhaglenni, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Michelle Matheron	Uwch Swyddog Polisi, CGGC
Joy Kent	Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru
Catriona Williams	Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru

20 Hydref 2011

Carl Sargeant AC	Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Reg Kilpatrick	Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru

Helen Birthwhistle	Cyfarwyddwr Confederasiwn GIG Cymru
--------------------	-------------------------------------

31 Hydref 2011

Jane Hutt AC	Y Gweinidog Cyllid
Andrew Jeffreys	Pennaeth Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Leol
Jo Salway	Pennaeth Polisi'r Gyllideb, Llywodraeth Cymru
Jeff Andrews	Cynghorydd Polisi Arbenigol, Cyllid, Llywodraeth Cymru

Atodiad 3: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yma:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryChronology.aspx?Ild=1530&Opt=2>

Sefydliad

Y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Confederasiwn GIG Cymru

Cyfeirnod

[FIN\(4\) 03-11 \(p1\)](#)

[FIN\(4\) 03-11 \(p2\)](#)

[FIN\(4\) 05-11 \(p1\)](#)

[FIN\(4\) 05-11 \(p2\)](#)

[FIN\(4\) 06-11 \(p1\)](#)

Gellir gweld yr ymatebion llawn i gais y Pwyllgor am dystiolaeth yma:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=1530>